| **4 Symud o Gwmpas – Colwyn cysylltiedig** | Bydd ein rhwydwaith lleol yn hyrwyddo **cysylltedd trwy deithio llesol** tra'n cadw ni'n gysylltiedig ymhellach i ffwrdd. Byddwn yn sicrhau bod polisi trafnidiaeth genedlaethol yn cael ei deilwra i gyd-fynd â blaenoriaethau lleol. |
| **5 Hyrwyddo Colwyn Werdd** | Bydd ein **mannau agored** a'n **glannau** yn lân, yn ffynnu ac yn hygyrch i bawb. |
| **6 Busnes, Manwerthu a Sgiliau** | Bydd ein **strydoedd mawr** yn brysur, yn cefnogi busnesau lleol ac economi leol gref. Bydd ein **trigolion** yn cael y cyfleoedd i ddatblygu **sgiliau newydd** a manteisio ar **swyddi o ansawdd uchel.** |

Bydd gan lawer o'r themâu gyfleoedd a heriau sy'n gorgyffwrdd. Yn ogystal, bydd llawer o’r prosiectau a’r camau gweithredu sydd wedi datblygu o drafodaethau lleol gyda’r gymuned a rhanddeiliaid yn ymwneud â materion llesiant. Nodir bod yr holl faterion defnydd tir yn cael eu crynhoi o dan y tablau polisi Cynllunio tra bod materion lles yn dod o fewn y tablau camau gweithredu a phrosiectau yn y dyfodol.

Mae egwyddorion y Cynllun Lle yn glynu at ac yn mynd i’r afael â pholisïau presennol CDLl Conwy – fe restrir y rhain o dan bob thema er gwybodaeth.

**Gweithredu'r Cynllun**

Fe weithredir y Cynllun trwy gyfres o egwyddorion a chamau gweithredu cynllunio fel yr amlinellir yn thema pob pennod. Mae gan bob thema set o amcanion sydd wedi arwain at nodi egwyddorion a phrosiectau / camau gweithredu.

Bydd y rhain yn cael eu hadolygu’n flynyddol a’r Cynllun yn cael ei ddiweddaru gan Grŵp Llywio’r Cynllun Lle. Ceir rhagor o wybodaeth am weithrediad y Cynllun yn Adran 5.

## Thema 1

# Tai a Datblygu yn y Dyfodol



*Llun gan Louise Nicholls*

# Thema 1: Tai a Datblygu yn y Dyfodol

## Cyflwyniad gan drigolion

Bydd y bennod hon yn archwilio pwysigrwydd diwallu anghenion tai trigolion Bae Colwyn yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r gymuned wedi rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod modd i bawb fanteisio ar dai fforddiadwy o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys darparu cymysgedd o fathau o dai i ddiwallu anghenion amrywiol unigolion yn y gymuned, o'r ifanc i'r henoed, yn ogystal â datblygu adeiladau gwag a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol i ehangu'r stoc tai presennol.

Mae Cynllun Llesiant Conwy yn ein hysbysu fod tai o ansawdd da a charbon isel yn hanfodol ar gyfer lles unigolion a chymunedau, gan ddarparu diogelwch, preifatrwydd, iechyd da, a lle ar gyfer hunaniaeth bersonol, tyfiant a datblygiad. *(Ffynhonnell: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, Cynllun Llesiant Drafft 2023 i 2028)*

Bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg o'r dirwedd bresennol i dai ym Mae Colwyn, gan ymgorffori barn y gymuned, cyn amlinellu set o bolisïau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd.

## Beth ddywedodd y gymuned wrthym am dai?

Themau poblogaidd:

- Ailddefnyddio adeiladau gwag a lletyau uwchben siopau
- Tai fforddiadwy
- Nifer yr ail gartrefi ac Airbnb's
- Dylai tai yn y dyfodol fod yn gynaliadwy
- Osgoi datblygiadau tai ar feysydd gwyrdd
- Landlordiaid absennol

***Adborth allweddol***

**37%** rhoi blaenoriaeth i wella'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy o ansawdd da, gan gynnwys eiddo rhent fforddiadwy a thai ar gyfer pobl sengl.

**24%** rhoi blaenoriaeth i ymchwilio i'r potensial ar gyfer datblygiadau tai mewnlenwi bach.

Syniadau gan y gymuned ar dai:

- Darparu'r isadeiledd sydd ei angen cyn codi tai – e.e. mwy o feddygon, deintyddion, ac ati.
- Mwy o dai yng nghanol y dref. Ymhlith y lleoliadau allweddol a nodwyd gan y gymuned lle mae unedau gwag uwchben siopau mae - Ffordd Abergele, Ffordd yr Orsaf.
- Ymhlith yr adeiladau gwag mwy a nodwyd ar gyfer tai posibl mae Gwesty'r Imperial a'r Swyddfeydd yn Ffordd Dinerth.
- Canran uwch o ddatblygiadau tai i fod yn fforddiadwy i gadw pobl ifanc; gydag a heb blant.
- Yr angen am lety efo rhent fforddiadwy yn y dyfodol
- Mynd i'r afael â'r nifer uchel o Airbnb ac ail gartrefi ar hyd y Promenâd (yn rhwystro eiddo rhag defnydd lleol ar hyn o bryd).
- Mwy o lety i dwristiaid.
- Roedd sicrhau bod tai yn y dyfodol yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn thema gref ymhlith pobl ifanc (40 o bobl ifanc).
- Dylid cyfyngu datblygiadau tai ar raddfa fawr i safleoedd tir llwyd.

***Dyfyniadau gan y gymuned***

*"Cyfyngu ar AirBNBs + Cefnogi twristiaeth / gwestai ar lan y môr."*

*"Tai Fforddiadwy – Angen i % uwch o adeiladau newydd cael eu dylunio fel rhai gwirioneddol fforddiadwy. "*

*"Canol y Dref a Rhos – defnyddio lloriau uchaf ar gyfer tai"*

*"Llawer o AirBNBs ar y promenâd ac ail gartrefi - ddim ar gael i bobl leol"*

*"Cyflwr trist iawn fel ein "Stryd Fawr" a'r olygfa gyntaf o'r orsaf. Rhaid i landlordiaid absennol fod yn atebol am gyflwr eu heiddo"*

*"Mae angen ailwampio Ffordd Abergele yn llwyr - Fflatiau i bobl leol uwchben siopau"*

*"Lleoedd gwag uwchben siopau – mae canol y dref yn teimlo'n wag"*

*"Mwy o dai fforddiadwy ar gyfer teuluoedd incwm isel."*

# Beth wnaethom ni amdano?

Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd gan y gymuned, casglwyd gwybodaeth bellach trwy ymchwil bwrdd gwaith a chasglu tystiolaeth a arweinir gan y gymuned i ddarparu gwybodaeth benodol fanylach yn ymwneud â Bae Colwyn. Roedd hyn yn cynnwys casglu data lleol ar ail gartrefi ac adeiladau gwag yn yr ardal ac archwilio safleoedd posibl ar gyfer datblygu safleoedd tai mewnlenwi llai. Rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau isod.

Arweiniodd hyn at nodi set o amcanion ar gyfer y Cynllun Lle a ddefnyddiwyd wedyn i ddatblygu cyfres o egwyddorion posibl ar gyfer y cynllun a chamau gweithredu a awgrymir y gall y gymuned eu cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

# Tai ym Mae Colwyn

Mae'r Cynllun Lle yn cynnwys ardaloedd Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn, Hen Golwyn a Bryn y Maen. Mae pob un o'r rhain yn unigryw gydag ystod eang o stoc tai yn bresennol.

Dengys cyfrifiad 2021 fod 65% o drigolion yn byw mewn anheddau perchen-feddianwyr gyda 35% yn byw mewn llety rhent ar draws ardal Cynllun Lle Bae Colwyn. Dangosir y mathau o lety yn nhabl 1 gyferbyn:

| Mathau o Dai | **% o Anheddau** |
|---|---|
| Ar wahân | 27.31% |
| Tŷ pâr | 30.23% |
| Teras | 13.07% |
| Mewn bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd I bwrpas. | 18.25% |
| Rhan o dŷ a droswyd neu dŷ a rennir, yn cynnwys ystafelloedd gwely / lolfa. | 8.45% |
| Rhan o adeilad arall a addaswyd, er enghraifft, a fu gynt yn ysgol, eglwys neu warws. | 0.86% |
| Mewn swyddfa fasnachol, er enghraifft, mewn swyddfa, gwesty neu uwchben siop. | 1.80% |
| Carafán neu llety 'dros dro' arall | 0.03% |

*Tabl 1: Mathau o Dai ym Mae Colwyn*

Mae yna dystiolaeth bod llawer o'r unedau tai mwy yn y mannau adeiledig yn adeiladau hŷn, gyda llawer ohonynt yn amlwg angen eu hatgyweirio. Defnyddir y mathau hyn o eiddo yn aml fel Tai Amlfeddiannaeth (HMO). Mae mater landlordiaid absennol ac adeiladau gwag ac adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn her ac yn un a nodwyd droeon yn ystod yr ymgysylltiad cymunedol.

Ar hyn o bryd mae 423 o anheddau yn ardal Bae Colwyn a fu'n wag am 6 mis neu fwy. Mae 50 o'r rhain yn fflatiau uwchben siopau / adeiladau masnachol eraill (CBSC Mawrth 2023). Mae hyn yn dangos yr angen cryf i flaenoriaethu cael unedau gwag yn ôl i ddefnydd gweithredol.

Oherwydd ei leoliad arfordirol gwych a'i botensial fel man poblogaidd i dwristiaid, bu cynnydd yn y nifer o dai newydd sy'n cael eu prynu gan ddatblygwyr i'w defnyddio fel ail gartrefi ac Airbnb. Canlyniad y duedd hon yw bod teuluoedd ifanc a phrynwyr tro cyntaf yn methu â fforddio cartrefi oherwydd prisiau cynyddol a phrynwyr gydag arian parod. Mae tystiolaeth am y nifer o letyau gwyliau yn ddiarhebol o anodd ei nodi gan nad oes angen i berchnogion eiddo ddatgan eu bod yn defnyddio eu heiddo fel llety gwyliau.

| **Blwyddyn** | **Nifer o Lety Gwyliau hunan-adroddedig** |
|---|---|
| 2020/2021 | 42 |
| 2021/2022 | 63 |
| 2022/2023 | 72 |

*Tabl 2: Llety Gwyliau Hunan-gofnodedig*

Mae Tabl 2 yn dangos faint o eiddo sydd wedi'u hunanddatgan fel Llety Gwyliau ac sy'n talu ardrethi Busnes, yn hytrach na'r dreth gyngor yn ardal y Cynllun Lle (*Ffynhonnell: CBSC 2023)* ac yn dangos y duedd gynyddol o 42 yn 2020/21 i 72 yn 2022/23. Yn ogystal â hyn, roedd ciplun o Airbnb yn nodi bod cyfanswm o 136 o eiddo ar gael i'w rhentu rhwng Chwefror 2023 a Chwefror 2024 (*Ffynhonnell: Airbnb, Chwefror 14, 2023)*.

Mae'r gymuned leol wedi dweud wrthym ei bod yn ymddangos bod tuedd i ddefnyddio'r stoc tai presennol ar gyfer llety gwyliau.

I gael darlun clir o'r farchnad dai – mae tabl 3 yn dangos nifer o dai a werthwyd a'r prisiau gwerthu cyfartalog yn ardal y Cynllun Lle rhwng Chwefror 2022 a Chwefror 2023. (*Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir).*

Mae Tabl 4 yn rhoi cipolwg o'r llety sydd ar gael yn ardal y Cynllun Lle ar Chwefror y 14eg 2023. *(Ffynhonnell: Rightmove)*

Mae tystiolaeth o Asesiad o'r Farchnad Dai Leol CBS Conwy (AMTLI) 2018-2022 yn nodi y dylai darparu tai fforddiadwy ddod yn ffocws allweddol ar gyfer darparu tai. Mae'r ddogfen hon yn dibynnu ar Nodyn Cyngor Technegol 2 *Cynllunio a Thai Fforddiadwy* i ddiffinio tai fforddiadwy (gweler tudalen 16 o'r AMTLI).

Mae'r gymuned wedi dweud wrthym fod angen amrywiaeth o dai fforddiadwy a deiliadaethau o ansawdd da ledled Bae Colwyn i ddiwallu ystod eang o anghenion unigol gan gynnwys yr oedolion ifanc hynny sy'n dymuno aros yn yr ardal i weithio a phrynu eu cartrefi cyntaf. Mae galw hefyd gan y boblogaeth sy'n heneiddio sy'n dymuno ymddeol i'r ardal neu sydd am aros yn yr ardal ond symud i eiddo llai.

Mae'n hysbys, ers mabwysiadu CDLl Conwy, bod y rhaglen blynyddol o adeiladu tai wedi gostwng yn gyson yn is na'r targedau (*ffynhonnell: Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig – Sylfaen Tystiolaeth – Tai)*. Mae'n hanfodol felly bod polisïau'r dyfodol yn cael eu hategu gyda chamau gweithredu sydd â dull arloesol ar gyfer darparu tai fforddiadwy o fewn ardal y Cynllun Lle.

| **Math o Dŷ** | **Nifer a Werthwyd** | **Cyfartaledd Pris Gwerthiant** |
|---|---|---|
| Ar wahân | 83 | £ 335,255.57 |
| Tŷ pâr | 85 | £ 236,897.06 |
| Terras | 68 | £ 152,343.38 |
| Fflat | 103 | £ 154,210.24 |
| Arall (heb ei nodi) | 13 | £ 218,534.62 |
| Cyfanswm a Werthwyd | 352 | |
| **Cyfanswm** (preswyl) | 339 | |

Tabl 3: Gwerthu Tai Bae Colwyn 2022 yn ôl math o dŷ. Ffynhonnell Cofrestrfa Tir EM, 2022

| **Math o Dŷ** | **Ar Werth** | **I'w Rhentu** |
|---|---|---|
| 6 + ystafell wely | 3 | 1 |
| 5 ystafell wely | 16 | 0 |
| 4 ystafell wely | 53 | 0 |
| 3 ystafell wely | 61 | 5 |
| 2 ystafell wely | 77 | 2 |
| 1 ystafell welytudioo | 45 | 0 |
| Stiwdio | 1 | 0 |
| Rhannu Tŷ | | 1 |
| **Cyfanswm** | 256 | 10 |

*Tabl 4: Llety sydd sydd ar gael gan Rightmove ym Mae Colwyn ar 14 Chwefror 2023*

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol: Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi bod ardal arfordir Gogledd Cymru rhwng Caernarfon a Phrestatyn yn Ardal Twf Rhanbarthol – mae Bae Colwyn yn ganolog i'r ardal hon ac felly'n arwyddocaol yn strategol gyda Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ac adfywio. Mae gan ardal y Cynllun Lle, felly, arwyddocâd cenedlaethol a sirol o ran tai yn y dyfodol.

## Polisi Cynllunio Conwy

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi blaenoriaethu 5 maes ffocws ar gyfer twf o fewn y Sir yn y dyfodol, ac un ohonynt yw Hen Golwyn lle bwriedir darparu 450 o gartrefi newydd.

Mae'r dyraniadau tai presennol yn y CDLl yn cynnwys Tŷ Mawr, Hen Golwyn (dyraniad sydd eisoes yn y CDLl). Mabwysiadwyd y brîff datblygu ar gyfer Tŷ Mawr fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r safle hwn yn union i'r dwyrain o ffin y Cynllun Lle ond yn dal yn ddigon agos i haeddu sylw. Ni chafodd y safle hwn ei ddatblygu yn ystod cyfnod cynllun y CDLl. *(Ffynhonnell: CCA CDLl Conwy – Briff Datblygu Tŷ Mawr (Gorffennaf 2018)*

Mae'r CDLl Newydd yn cynnwys safleoedd datblygu pellach gan gynnwys Fferm Peulwys, Ffordd Peulwys, Hen Golwyn (safle 2) – mae'r safle hwn wedi'i rannu o'r gogledd i'r de gan ffin y Cynllun Lle gyda hanner ochr ddwyreiniol y safle y tu hwnt i ffin y Cynllun Lle. Mae'r safle mawr hwn yn ddyraniad presennol yn y CDLl.

***Polisïau CDLl Perthnasol***

Polisïau Strategol: DP/1 - DP/8.#

Polisïau Tai: HOU/1 – HOU/12.

Eraill: NTE/6 – Effeithlonrwydd ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd.

***Dogfennau Perthnasol Eraill***


- Asesiadau tai (CBSC a Chymdeithasau Tai)
- Ystadegau'r Cyfrifon – Proffiliau Tail
- Strategaeth Tai Gwag (2019)
- Bwletin Tai 2022 (CBSC)
- Llywodraeth Cymru – Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- 'Amcangyfrifon o angen tai ychwanegol (seiliedig ar 2019)' Llywodraeth Cymru dros gyfnod o ugain mlynedd hyd at 2038-39 (o ganol blwyddyn i ganol blwyddyn)
- Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig – Sylfaen Tystiolaeth – Tai – CBS Conwy
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Sylfaen Tystiolaeth – Tai CDLl Newydd - Sylfaen Tystiolaeth - Tai – CBS Conwy
- Bwrdeistref Sirol Conwy – CDLl Newydd – Strategaeth a Ffefrir Gorffennaf 2019
- TAN1: Cyd-astudiaeth Tai ac Argaeledd Tir
- Cynllun Corfforaethol Conwy (2022- 2027)

## Cymeriad Tai

Mae cymysgedd eang o stoc o dai o ansawdd yn y Bae – mwy poblog i'r gogledd gydag ystadau mwy newydd i'w canfod ar dir uchel i'r de-ddwyrain.

Mae'r map cymeriad gyferbyn yn rhoi syniad o sut mae Bae Colwyn wedi datblygu dros amser gydag ehangiad mawr ar ddechrau'r 20fed ganrif a ategwyd ato gan nifer o ystadau tai cymdeithasol yn y 60au a'r 70au a chreu Ucheldir Colwyn o'r 1970au.

Mae cyfleoedd am adeiladu newydd yn y dyfodol wedi'u crynhoi i'r de yn Hen Golwyn. Fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Lle – cafodd y potensial am safleoedd mewnlenwi eu dynodi drwy'r broses Cynllun Lle – gweler isod.



**Mae'r lluniau isod yn rhoi ymdeimlad o gymeriad yr ardaloedd a phensaernïaeth a hynodrwydd pob lle.**



























## Y Potensial am Safleoedd Mewn-lenwi Bach

Mae Grŵp Llywio'r Cynllun Lle eu hun wedi edrych ar yr ardal yn fanylach ac wedi nodi rhai safleoedd mewn-lenwi bach a fyddai'n cynnwys llai na 10 o anheddau. Fe nodir y rhain ar y map isod ar gyfer eu hystyried yn y dyfodol.



## Amcanion ar gyfer y Cynllun Lle – Tai a datblygu yn y dyfodol

Yn seiliedig ar y blaenoriaethau cymunedol a nodwyd a'r dystiolaeth a grynhowyd uchod, fe ddynodwyd yr amcanion canlynol ar gyfer y Cynllun Lle:

**Nod:** Bydd ein tai yn amrywio gyda chyfran ohonynt yn fforddiadwy tra'n diwallu anghenion pobl a natur**.**

| Rhif yr Amcan | Amcanion y Bennod Tai |
|---|---|
| Amcan 1. | Lleihau'r nifer o fflatiau gwag uwchben siopau yn y craidd manwerthu - yn enwedig Ffordd yr Orsaf |
| Amcan 2. | Lleihau'r nifer o adeiladau gwag yn y Cynllun Lle trwy hyrwyddo ailddefnydd amgen (e.e., ar gyfer yr angen lleol am dai) |
| Amcan 3. | Deall yn llawn a dechrau mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag Airbnb ac ail gartrefi yn ardal y Cynllun Lle |
| Amcan 4. | Cefnogi datblygiad cymysgedd o ddeiliadaethau a chartrefi fforddiadwy (yn yr ardaloedd canolog a'r safleoedd tai newydd fel y'u nodir yn y CDLl) ac yn enwedig y rhai sy'n hyrwyddo adeiladwaith cynaliadwy ac egwyddorion hunan adeiladu. |
| Amcan 5. | Ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â landlordiaid absennol a chwilio am ffyrdd arloesol o wella. |
| Amcan 6. | Meithrin cysylltiadau partneriaeth gyda CBSC i ymchwilio i gyfleoedd A106 ar gyfer gwelliannau i lesiant preswylwyr a chysylltiadau â thai newydd e.e., mannau chwarae |
| Amcan 7 | Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned |
| Amcan 8 | Cefnogi datblygiad safleoedd mewnlenwi (llai na 10 tŷ) fel y nodir yn y bennod ar Dai yn y Cynllun Lle. |

## Egwyddorion y Cynllun Lle – Tai


| Cyfeirnod Egwyddor | Egwyddor | Amcanion Cysylltiedig | Lle bo'n fwyaf perthnasol |
|---|---|---|---|
| HP1. | Bydd datblygiadau tai yn cael eu cefnogi lle maent yn dangos y darperir cartrefi cymdeithasol, canolraddol a fforddiadwy, cymysgedd o fathau o dai a'r egwyddorion a ganlyn:<br>• Gwelliannau net i isadeiledd (e.e., meddygon newydd, deintyddion, isadeiledd priffyrdd, cyfleusterau cymunedol) fel rhan o'r cynnig datblygu<br>• Trafodaethau gyda'r Cyngor Tref cyn cyflwyno cais<br>• Briff Dylunio (cymysgedd o fathau o dai)<br>• Ymgysylltu â'r gymuned ar y cyfle cyntaf<br>• Cysylltiadau teithio llesol cryf<br>• Ffynonellau ynni adnewyddadwy | 4 & 6 | |
| HP2. | Cefnogir datblygiad ac adnewyddiad priodol o ran treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau gwag, safleoedd tir llwyd a lloriau uwch mewn lleoliadau yng nghanol y dref, yn enwedig lle mae newid defnydd i unedau preswyl neu waith-byw. | 1 & 2 | Llandrillo yn Rhos, Hen Golwyn (e.e. 1 Ffordd Endsleigh) Bae Colwyn |
| HP3. | Er mwyn annog defnyddio lloriau uwchben siopau (ar gyfer defnydd preswyl, masnachol neu hamdden) - rhoddir cefnogaeth i ddatblygiadau sy'n gwella mynediad ac yn hyrwyddo blaenau siopau agored a gweithredol, yn enwedig yn ardaloedd Ffordd yr Orsaf a Ffordd Abergele. | 1 | Ffordd yr Orsaf Ffordd Abergele |
| HP4. | Rhoddir cefnogaeth i ddatblygiadau sy'n hyrwyddo egwyddorion adeiladu cynaliadwy a mentrau hunan-adeiladu. | 4 | |
| HP5. | Rhoddir cefnogaeth i gynlluniau tai a arweinir gan y gymuned | 7 | |
| HP6. | Rhoddir cefnogaeth i ddatblygu safleoedd mewnlenwi o fewn ardal y Cynllun Lle (llai na 10 annedd) fel y nodir yn y Bennod Tai. | 4 | Safleoedd a nodir yn y Bennod Tai |

## Prosiectau / Camau Gweithredu – Tai

| Cyfeirnod Gweithredu | Gweithrediadau / Prosiectau | Amcan Cysylltiedig | Erbyn Pryd? | Corff Arweiniol / Cydweithwyr |
|---|---|---|---|---|
| HA1. | Cydlynu â ChBS Conwy i edrych i mewn i'r posibilrwydd am ymchwil, mentrau, grantiau a chymorth i ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd, megis<br>• Cynlluniau i drawsnewid eiddo canol y dref gan ddefnyddio Grantiau Trawsnewid Trefi. (ffocws arbennig ar Ffordd yr Orsaf a Ffordd Abergele).<br>• Benthyciadau di-log i wella eiddo.<br>• Grantiau ar gyfer adeiladau sydd wedi bod yn wag am hyd at 6 mis.<br>• Cynlluniau prydlesu ar gyfer eiddo gwag. | 1, 2, 5 | Hir | Grŵp Llywio<br>**CBS Conwy**<br>Y Cyngor Tref<br>CBSC – Timau Tai ac Adfywio |
| HA2. | Sefydlu cysylltiadau gyda'r Tîm Cynllunio yn CBS Conwy i:<br>• Dynodi caniatâd cynllunio cyfredol yn ardal y Bae a thrafod y posibilrwydd am gyfleoedd ariannu Adran 106.<br>• Cynorthwyo i baratoi briffiau dylunio ar gyfer safleoedd tai a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn. | 6 | Canolig | **Y Cyngor Tref**<br>CBS Conwy –<br>Tîm Cynllunio |
| HA3. | Ymchwilio ymhellach i hyd a lled y problemau Airbnb ac Ail gartrefi yn ardal y Cynllun Lle. | 3 | Canolig | Y Cyngor Tref, **CBS Conwy,** Cwmpas |
| HA4. | Archwilio cyfleoedd i gydweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC). | 4 | Byr | Y Cyngor Tref, **CBS Conwy,** Cwmpas, LCC |
| HA5. | Ymchwilio i gyfleoedd ariannu i fwrw ymlaen â chynlluniau tai a arweinir gan y gymuned gan weithio mewn partneriaeth ag eraill. | 4 | Canolig | **Cwmpas,** Y Cyngor Tref, CBS Conwy |
| HA6. | Dynodi union anghenion y gymuned mewn perthynas â thai – gweithio gyda CBS Conwy yn y lle cyntaf. | 1-6 | Byr | LCC, CBS Conwy,<br>Y Cyngor Tref, Cwmpas |

## Thema 2

# Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth



# Thema 2: Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cydnabod y rôl bwysig y mae Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth yn ei chwarae wrth lunio hunaniaeth Bae Colwyn a denu ymwelwyr.

Mae’r gymuned wedi dweud wrthym eu bod yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod treftadaeth gyfoethog y Bae yn cael ei diogelu a’i harddangos, a dywedodd llawer o bobl wrthym eu bod am hyrwyddo a dathlu arlwy twristiaeth Bae Colwyn gan eu bod yn teimlo’n falch iawn am yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig.

Bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg o’r Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth a gynigir ym Mae Colwyn ar hyn o bryd, gan ymgorffori barn y gymuned, cyn amlinellu set o bolisïau a chamau gweithredu i fynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd a nodwyd.

## Beth ddywedodd y gymuned wrthym?

### Themâu Poblogaidd

- Datblygu cynnig cryfach i ddenu ymwelwyr gan gynnwys llety
- Marchnata Bae Colwyn
- Mynediad ag arwyddion
- Dathlu hanes a diwylliant Colwyn a’i safle unigryw yng Ngogledd Cymru
- Gwyliau a Digwyddiadau: mynediad i bawb
- Gwrthdaro rhwng trigolion a thwristiaid

***Adborth allweddol***

**75%** Eisiau diogelu’r promenâd, y pier a lan y môr

**46%** Yn ein arolwg ar-lein rhoddwyd blaenoriaeth ar ddiogelu cyfleusterau diwylliannol megis Theatr Colwyn

**44%** Rhoddwyd blaenoriaeth i ddiogelu treftadaeth lleol

**41%** Eisiau diogelu’r Celfyddydau a Gwyliau

**19%** Rhoddwyd blaenoriaeth i ddenu gwyliau gwych a cherddoriaeth fyw ar gyfer dyfodol Bae Colwyn

**18%** Rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal hunaniaeth Gymreig gref ar gyfer dyfodol Bae Colwyn.

- Defnydd llawn o Barc Eirias
- Gwarchod nodweddion treftadaeth leol
- Hyrwyddo treftadaeth leol a chyfleusterau diwylliannol
- Defnyddio lleoedd gwag ar gyfer gweithgareddau diwylliannol
- Dathlu'r iaith Gymraeg a’i hunaniaeth

**Dyfyniadau gan y gymuned**

- *“Gofalu am Drigolion, nid ymwelwyr yn unig.”*
- *“Gweithio i annog ymwelwyr i’r Bae trwy gyflwyno mesurau megis cymhellion parcio am ddim a chymhellion busnes.”*

Syniadau’r gymuned ar Ddiwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth:

- Defnyddio gofod ar gyfer diwylliant
- Awgrymu gŵyl flodau flynyddol ar gyfer Awst / Medi
- Teimlai'r rhai a ymatebodd, balchder o'r bensaernïaeth a threftadaeth a theimlent fod angen ailddatblygu adeiladau llai yn hytrach na'u dymchwel.
- Dathlu cysylltiadau diwyllianol Colwyn a’i threftadaeth
- Thema gyffredinol o awgrymiadau’r gymuned yw y dylid marchnata, yn briodol ac yn helaeth, digwyddiadau i dwristiaid a gynigir gan Colwyn
- Penodi rheolwr tref / swyddog twristiaeth i hyrwyddo Bae Colwyn
- Datblygu gwaith y Llwybr Dychmygu
- Y posibilrwydd i ddefnyddio adeiladau gwag fel gofod ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, digwyddiadau a gweithdai
- Y posibilrwydd o ddefnyddio gofod ar y pier newydd i osod byrddau addysgiadol ynglŷn â'r tyrbinau gwynt, eu cynhyrchiad ynni a'u heffaith amgylcheddol
- Datblygu Lido yn Llandrillo-yn-Rhos

# Beth wnaethom ni amdano?

Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd gan y gymuned, casglwyd mwy o wybodaeth trwy ymchwil bwrdd gwaith a chasglu tystiolaeth a arweinir gan y gymuned i ddarparu gwybodaeth benodol fanylach yn ymwneud â Bae Colwyn, fel y cyflwynir isod.

Arweiniodd hyn at nodi set o amcanion ar gyfer y Cynllun Lle a ddefnyddiwyd wedyn i ddatblygu cyfres o bolisïau posibl ar gyfer y cynllun ac fe awgrymwyd camau gweithredu y gall y gymuned eu rhoi ar waith i fynd i’r afael â rhai o’r materion hyn.

# Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth ym Mae Colwyn

Mae gan Bae Colwyn treftadaeth gyfoethog gyda llawer o adeiladau'r dref yn rhoi cipolwg i'r gorffennol. Mae'r nodweddion hyn yn rhoi hunaniaeth unigryw i'r ardal ac ymdeimlad o le i drigolion a'r rhai sy'n ymweld â'r ardal. Ehangodd yr ardal yn gyflym gyda'r rheilffordd yng nghanol y 19eg ganrif gan ddenu ymwelwyr i'r dref arfordirol.



Fodd bynnag, oherwydd gostyngiad yn nifer y twristiaid aeth y gwestai mawr Fictoraidd a'r tai llety yn adfeilion a chafodd llawer eu troi'n dai amlfeddiannaeth (HMO). Yn ddiweddar mae rhaglenni adfywio wedi buddsoddi'n helaeth yn yr ardal i weld gwelliannau megis "amddiffynfeydd morol, datblygiadau glan y môr, adnewyddu Theatr Colwyn, cyfleusterau chwaraeon a digwyddiadau ym Mharc Eirias, adfer a chadw adeiladau allweddol trwy Menter Treftadaeth Treflun (MTT), cynlluniau i wella tai a swyddfa Coed Pella" *(ffynhonnell: Lansio Bae Colwyn – Creu Conwy, Creating the Spark – Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Sir Conwy)*

Ffynhonnell: Treftadaeth Conwy

Dywedodd y gymuned wrthym fod yr ardal yn wirioneddol unigryw gan ei bod wedi'i ffinio i'r de gan fynyddoedd ac i'r gogledd gan y môr a'r promenâd – dyma bwynt gwerthu unigryw'r ardal a pham fod gan dwristiaeth botensial fawr yma. Nododd 76% o'r rhai a ymatebodd i arolwg y Cynllun Lle bod diogelu a chryfhau'r promenâd, y pier a glan y môr yn flaenoriaeth gref ar gyfer y dyfodol.

## Diwylliant a Threftadaeth:




Mae cymysgedd cyfoethog o bensaernïaeth ac adeiladau nodedig ym Mae Colwyn, ac mae'r rhain eisoes wedi'u hamlygu gan fentrau arloesol fel y Llwybr Dychmygu https://www.imaginetrail.com/ a ddatblygwyd gan y gymuned fel rhan o brosiect Dychmygwch Bae Colwyn.

Mae gan Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn wefan hefyd https://colwynbayheritage.org.uk/ sy'n adnodd o fri ac yn cynnig 6 taith gerdded treftadaeth wedi'u tywys o fewn ardal y Cynllun Lle ynghyd â hanesion llafar a manwl am adeiladau allweddol pwysig a gwybodaeth fanwl am enwogion allweddol fel Sidney Colwyn Foulkes.

Fel rhan o’r gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Lle cytunwyd bod angen adolygu’r arwyddion ar gyfer y teithiau cerdded treftadaeth bresennol a gwneud cysylltiadau â llwybr newydd ym Mharc Eirias (i’w lansio ym mis Medi 2023). Cytunwyd hefyd y byddai'r Grŵp Treftadaeth yn elwa o hyrwyddo hyn ac aelodaeth newydd gyda'r potensial i gyfuno gwefan bresennol y Grŵp Treftadaeth â gwefan y Cyngor Tref. Mae’n hanfodol bod polisïau a chamau gweithredu’r Cynllun Lle yn ategu’r holl brosiectau treftadaeth a diwylliant blaenorol sydd wedi eu cyflawni yn yr ardal.


## Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth

Ar hyn o bryd mae gan ardal y Cynllun Lle bedair ardal gadwraeth ddynodedig a 117 o Adeiladau Rhestredig.

- Ardal Gadwraeth Canol Tref Bae Colwyn
- Ardal Gadwraeth Hen Golwyn
- Ardal Gadwraeth Llandrillo-yn-Rhos
- Ardal Gadwraeth Pwllycrochan

Mae dwy heneb gofrestredig:

- Gwersyll Bryn Euryn
- Tŷ Canoloesol Llys Euryn, Llandrillo-yn-Rhos










## Nodweddion bach treftadaeth

Mae'r dudalen hon yn dangos tair enghraifft o nodweddion treftadaeth a ddynodwyd gan y gymuned. Mae'r delweddau o'r plac (chwith uchaf) a'r porth bwa (gwaelod) i'w gweld ar adeilad rhestredig gradd 2 ar Ffordd yr Orsaf.

Ar hyn o bryd, mae'r teras o siopau a adeiladwyd oddeutu 1887 i ddyluniadau Booth, Chadwick a Porter, penseiri Bae Colwyn a Manceinion, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol. Hwy oedd prif benseiri'r Colwyn Bay and Pwllycrochan Estate Company, a oedd yn bennaf gyfrifol am ddatblygu Bae Colwyn yn gyrchfan ar ôl 1875. Mae'r eiddo hwn wedi cael llawer o ddefnyddiau gan gynnwys banc ac yn ddiweddarach gorsaf heddlu fel y dangosir gan y fantol cyfiawnder a gefynnau.

Daw'r rheilen (ar y dde uchaf) o'r Pier Fictoria gwreiddiol sydd wedi'i gadw a'i ymgorffori yn y Pier Fictoria newydd sydd wedi'i gwtogi. Cafodd y balwstrad haearn gyr gyda monogram ei baentio i adlewyrchu'r lliwiau gwreiddiol o 1934.

## Cynnig Twristiaeth

O ran yr arlwy a'r profiad i dwristiaid, mae'r gymuned wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo bod cyfoeth o botensial yn yr ardal o Barc Eirias a'r digwyddiadau sy'n cael eu hyrwyddo yma, i lwybrau treftadaeth, y Sŵ Fynydd, y promenâd, a gwyliau blynyddol .

Mae twristiaeth yn gyflogwr a diwylliant allweddol, ac mae atyniadau'n hanfodol bwysig i gefnogi ffyniant yr ardal. Mae'r digwyddiadau a'r gwyliau nid yn unig yn denu ymwelwyr, ond hefyd yn darparu adloniant ac ymdeimlad o les i'r rhai sy'n byw yn yr ardal.

Mae twristiaeth yn cyfrannu £887m y flwyddyn mewn incwm yn Sir Conwy, a gynhyrchir gan 9.5m o ymwelwyr (*Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy).* Mae atyniadau / digwyddiadau allweddol yn ardal y Cynllun Lle yn cynnwys:

- Theatr Colwyn
- Y Sŵ Fynydd
- Chwaraeon dŵr Parc Eirias
- Prom Xtra
- Cyngherddau'r Haf
- Cystadlaethau Rygbi
- Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi
- Sioe Flodau, Llandrillo-yn-Rhos

Mae'r gymuned (a busnesau lleol) yn cyflwyno ystod amrywiol o ddigwyddiadau gan gynnwys:


- Picnic Mawr T4CB
- Digwyddiad Pride
- Sinema awyr agored

**Polisïau CDLl Perthnasol**
Polisïau Strategol: TOU/1, TOU/2 & TOU/4 (Twristiaeth), CTH/1 – CTH/5 – polisïau treftadaeth diwylliannol gan gynnwys yr iaith Gymraeg.

**Dogfennau Perthnasol Eraill**

- Cofrestr Asedau Adeiladau Hanesyddol
- Rhaglen Iaith Menter Iaith
- Data Cyfrifiad
- Adroddiad STEAM – LIC / CBSC
- "Creu Conwy – Creating the Spark" – Strategaeth diwylliannol i Fwrdeistref Sirol Conwy 2021 - 2026
- Ymgynghoriad Strategaeth Llyfrgelloedd
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy Plan 2019 – 2029 CBSC
- "Mewn Lleoliad Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf" Strategaeth Twf Economaidd Sir Conwy 2017-2027"
- TAN 15 – Llifogydd / Amddiffynfeydd Môr
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Strategaeth Partneriaeth Twf Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020
- Strategaeth Digwyddiadau (CBSC)
- Astudiaeth Gyntaf o Ganol Trefi Conwy (Litchfields, Mehefin 2022)
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028 (Drafft)

- Arddangosfeydd Oriel Colwyn ag Inc
- Gŵyl ffotograffiaeth Northern Eye
- Marchnadoedd Nadolig a chrefftwyr / thema
- Criced Blynyddol Morgannwg (Llandrillo-yn-Rhos)
- Digwyddiadau garddwriaethol (Llandrillo-yn-Rhos)




Er mwyn gwella ffyniant economaidd yr ardal, mae angen gwelliannau ychwanegol i sicrhau y gall ymwelwyr gyrraedd lleoliadau canol tref Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn yn hawdd o'r promenâd. Dylai gwell cysylltiadau i gerddwyr sicrhau y bydd twristiaid yn dod am ymweliadau hirach ac yn dychwelyd. Byddai'r gwelliannau hyn nid yn unig yn gwella profiad yr ymwelydd ond hefyd yn gwella bywyd beunyddiol y bobl leol sy'n defnyddio'r promenâd at ddibenion iechyd a lles. Dywedwyd wrthym hefyd y gellid gwella marchnata digwyddiadau a gwyliau i sicrhau bod pobl leol yn ymwybodol o'r calendr blynyddol ac i ddarganfod beth sy'n digwydd yn lleol. Fe nodwyd bod dau Bwynt Gwybodaeth i Dwristiaid o fewn ardal y Cynllun Lle ar hyn o bryd, sef yn Rhos (dan arweiniad gwirfoddolwyr) a Phorth Eirias.

O ran llety twristiaeth, mae yna sefydliadau Gwely a Brecwast annibynnol ynghyd â gwesty cadwyn genedlaethol ac mae cynigion ar hyn o bryd i ddatblygu'r hen Ganolfan Ddinesig yn westy. Mae galw cystadleuol o Landudno sydd 5 milltir i'r gogledd-orllewin o'r Bae ac sydd â chyfoeth o ddarparwyr llety. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mewnlifiad o lety Airbnb wedi dod ar gael gydag eiddo ar ystadau newydd a fflatiau adeiladu newydd arfordirol yn cael eu prynu fel ail gartrefi gyda photensial Airbnb. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar brynwyr tro cyntaf sy'n cael eu prisio allan o'r ardal. Mae tystiolaeth ynghylch nifer y lletyau gwyliau yn hynod o anodd ei nodi gan nad oes angen i berchnogion eiddo ddatgan eu bod yn defnyddio eu heiddo fel llety gwyliau. Cynyddodd nifer y Llety Gwyliau hunan-gofnodedig

sy'n talu Trethi Busnes (yn hytrach na'r dreth gyngor yn ardal y Cynllun Lle) o 42 yn 2021/2 i 72 yn 2022/23 *(ffynhonnell: CBSC 2023)*. Yn ogystal â hyn, dangosodd ciplun o Airbnb gyfanswm o 136 o eiddo a oedd ar gael i'w rhentu rhwng Chwefror 2023 a Chwefror 2024 *(Airbnb, Chwefror 14eg, 2023).*

Mae'r broblem ail gartrefi yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cyflwyno cynnydd i'r lefel uchaf y gall awdurdodau lleol osod premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor – mae cynnydd i 300% yn weithredol o fis Ebrill 2023.

## Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth - Nodau

**Nod:** Bydd ein cymuned yn dathlu ac yn hyrwyddo treftadaeth yr ardal, gan werthfawrogi ei diwylliant Cymreig a'i hunaniaeth unigryw gyda dyheadau i chwalu rhwystrau i wneud diwylliant Cymreig yn hygyrch i bawb. Bydd ein hardal yn cynnal digwyddiadau, gwyliau, a cherddoriaeth fyw a fydd yn hygyrch i bawb.

| **Rhif yr Amcan** | **Nodau Diwylliant, Tretadaeth a Thwristiaeth** |
|---|---|
| Amcan 1. | Datblygu a hyrwyddo Bae Colwyn fel cyrchfan gynaliadwy i dwristiaid. |
| Amcan 2. | Gwarchod a hyrwyddo treftadaeth, diwylliant a chyfleusterau Bae Colwyn a'i safle arfordirol unigryw yng Ngogledd Cymru |
| Amcan 3. | Cefnogi gwyliau a digwyddiadau ar gyfer ymwelwyr a thrigolion. |
| Amcan 4. | Cefnogi agwedd gytbwys tuag at ddatblygu Parc Eirias fel ased twristiaeth a chyfleuster cymunedol. |
| Amcan 5. | Defnyddio lleoedd gwag ar gyfer gweithgareddau diwylliannol. |
| Amcan 6. | Gwella a dathlu iaith, diwylliant a hunaniaeth Gymreig Bae Colwyn – gan sicrhau hygyrchedd i ymwelwyr a thrigolion |
| Amcan 7. | Darparu cyfleusterau ychwanegol i hyrwyddo'r ardal fel canolfan ar gyfer beicio, cerdded a theithio Gogledd Cymru. |

## Egwyddorion y Cynllun Lle – Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth

| Cyfeirnod Egwyddor | Egwyddor | Amcan Cysylltiedig | Lle bo'n fwyaf perthnasol (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| TCH/1. | Dylai datblygiad roi blaenoriaeth i warchod neu wella adeiladau treftadaeth allweddol a nodweddion pensaernïol lle bo modd. Ni fydd datblygiad sy'n golygu colli atyniadau allweddol ym Mae Colwyn yn cael ei gefnogi oni bai nad yw bellach yn hyfyw, a gellir dangos / tystiolaeth glir i foddhad yr Awdurdod Lleol. | 4 | Ardaloedd gyda % uchel o landlordiaid absennol |
| TCH/2. | Rhoddir cefnogaeth i warchod asedau diwylliannol allweddol pwysig. Mae enghreifftiau yn cynnwys Theatr Colwyn, Theatr Bypedau Harlequin a'r Pier. | 1,4,5 | |
| TCH/3. | Ni fydd datblygiadau sy'n difrodi neu'n cael gwared ar nodweddion bach treftadaeth fel gosodiadau / ffitiadau (e.e. Ffordd yr Orsaf) neu arwyddion Haearn Bwrw (e.e. Ffordd Rhiw, Ffordd Abergele) yn cael eu cefnogi. | | Promenad Rhos– paneli llwybr treftadaeth / ffynnon ddŵr |
| TCH/4. | Rhoddir cefnogaeth i ddigwyddiadau, gweithgareddau ac ail-ddefnyddio ciosgau ym Mharc Eirias i hyrwyddo'r parc fel cyfleuster allweddol i drigolion ac fel ased twristiaeth. | 1,7 | Parc Eirias |
| TCH/5. | Mewn egwyddor, rhoddir cefnogaeth i ddatblygiadau sy'n (Oni bai bod y datblygiadau arfaethedig yn gwrthdaro â pholisïau eraill yn y cynllun hwn.):<br>• Darparu llety, atyniadau a chyfleusterau pwrpasol i dwristiaid<br>• Cyfrannu at yr economi gyda'r nos<br>• Ailddefnyddio adeiladau gwag / amlwg, yn arbennig at ddibenion diwylliannol<br>• Hwyluso twristiaeth ar draws ardal y Cynllun Lle, yn enwedig mewn canolfannau presennol<br>• Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hunaniaeth unigryw'r ardal | 1,2,5,6 | |
| TCH/6. | Pan fo angen isadeiledd dros dro ar gyfer digwyddiadau a gwyliau newydd neu bresennol – cefnogir y rhain i annog mwy o dwristiaeth am nad yw trigolion yn cael eu heffeithio'n andwyol. | 2 | Parc Eirias |
| TCH/7. | Fe roddir cefnogaeth i eiddo gwag (dibreswyl) y gellir eu defnyddio fel asedau twristiaeth e.e. Rhos Point, lle mae'r cynigion yn unol â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. | 1,5 | |
| TCH/8 | Ni chefnogir datblygiad a allai niweidio'r Gymraeg a'i hunaniaeth. | 6 | |

## Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth - Prosiectau / Gweithrediadau

| **Cyfeirnod Gweithredu** | **Camau Gweithredu / Prosiectau** | **Amcanion Cysylltiedig** | **Pryd (B/C/H)** | **Corff Arweiniol / Cydweithwyr** |
|---|---|---|---|---|
| TCH/A1 | Cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau presennol sy’n dathlu Pwyntiau Gwerthu Unigryw, treftadaeth, diwylliant a thwristiaeth Bae Colwyn, gan gynnwys:<br>• Ein hagosrwydd at y môr, traeth, promenâd a choedwigoedd<br>• Teithiau Cerdded / Llwybrau Treftadaeth ac arwyddion cysylltiedig.<br>• Gweithgareddau sy'n hybu'r defnydd o'r promenâd<br>• Digwyddiadau diwylliannol Cymraeg<br>• Ein gwerth fel cyrchfan beicio a cherdded | 1,2,6,7 | Byr | Y Cyngor Tref<br>**CBS Conwy**<br>Timau Tref<br>Ysgolion<br>Ymweliad Menter Iaith<br>Conwy Go N. Wales<br>Sustrans<br>Ymweld a Chymru |
| TCH/A2 | Gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau priodol, ymchwilio a datblygu prosiectau sy'n gwella ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth yn ardal Bae Colwyn, gan gynnwys gweithio ar adnabod a brandio'r Bae. Gallai prosiectau gynnwys:<br>• Y potensial i ailddefnyddio adeilad yr orsaf ar blatfform 3 ar gyfer twristiaeth.<br>• Ymgorffori diwylliant yn y cysylltiadau presennol rhwng y dref a’r promenâd (e.e. gwell arwyddion / celf gyhoeddus).<br>• Nodweddion arloesol / arwyddion Croeso i Fae Colwyn o'r A55 i annog pobl i stopio ym Mae Colwyn. | 1,2,3,4 | Canolig i Hir | Trafnidiaeth Cymru<br>Network Rail<br>Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru<br>Y Cyngor Tref<br>CBSC Conwy<br>Visit Wales<br>Llywodraeth Cymru.<br>Timau Tref<br>Pigtown Theatre Cic |
| TCH/A3 | Cynnal ymchwil pellach i’r angen / galw a chyfleoedd ariannu ar gyfer mentrau newydd i wella ein harlwy twristiaeth, gan gynnwys:<br>• Argaeledd a dosbarthiad y llety twristiaeth presennol a’r galw i helpu i lywio ystyriaeth o gynigion yn y dyfodol<br>• Lido yn Llandrillo yn Rhos<br>• Penodi Rheolwr Twristiaeth / Adfywio / Tref Bae Colwyn i hyrwyddo'r ardal | 1,2,3,4,5 | Hir | Y Cyngor Tref<br>CBSC Conwy<br>Timau Tref<br>Visit Wales |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Galw / cyfleoedd am berchnogaeth gymunedol o adeiladau cyhoeddus<br>• Defnyddio gofod ar y Pier ar gyfer byrddau gwybodaeth / gweithgareddau am dyrbinau gwynt<br>• Yr angen am fannau cyswllt ar gyfer cartrefi modur ar hyd y promenâd ac ym Mharc Eirias. Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer ardal benodol dros nos. | | | |
| TCH/A4 | Datblygu a chyflawni prosiectau newydd sy'n dathlu diwylliant a threftadaeth Bae Colwyn gan gynnwys:<br>• Llwybrau treftadaeth newydd a chysylltiadau â llwybr newydd ym Mharc Eirias<br>• Dathlu enwogion lleol megis Terry Jones a Sydney Foulkes.<br>• Amgueddfa fechan ar gyfer treftadaeth a diwylliant lleol.<br>• Bandstand wedi'i orchuddio<br>• Datblygu gwaith y Llwybr Dychmygwch<br>• Y Weinyddiaeth Fwyd – cysylltiadau â Bae Colwyn | 2,3,5,6,8 | Byr i Ganolig | Cymdeithas Treftadaeth Colwyn<br>Y Cyngor Tref<br>Cyfeillion Parc Eirias<br>Visit Wales |
| TCH/A5 | Cyngor Tref / CBSC i ymchwilio i'r potensial ar gyfer mannau twristiaeth / treftadaeth neu ddiwylliannol aml-ddefnydd newydd o fewn ardal y Cynllun Lle e.e. Neuadd y Dref | 1,2,3,6,7,8 | Byr | Y Cyngor Tref<br>CBSC, Timau Tref |
| TCH/A6 | Cefnogi, datblygu a hyrwyddo rhaglen eang o ddigwyddiadau ar gyfer pob oedran a gallu, megis:<br>• Digwyddiadau diwylliannol a dathliadau bywyd stryd (e.e., noson meic agored, bwyd stryd, cerddoriaeth fyw / awyr agored, gwyliau bwyd, digwyddiadau chwaraeon)<br>• Dathlu a hyrwyddo canmlwyddiant Parc Eirias<br>• Gŵyl Flodau Flynyddol<br>• Marchnad y Crefftwyr 'Best of the Bay' a 'Made in Wales'<br>• Digwyddiad y Pedwardegau<br>Bydd pob digwyddiad yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol a'i farchnata i'r gymuned leol a thu hwnt i ddenu ymwelwyr. | 2,3,4,5 | Byr | Y Cyngor Tref<br>CBSC,<br>Y Farchnad Cefft<br>Cwmni'r Farchnad<br>Timau Tref<br>Mynediad i Bawb i Eirias<br>Visit Wales |
| TCH/A7 | Bachu ar y cyfle i wella cysylltedd digidol yn yr ardal megis hybu'r defnydd o'r hysbysfyrddau electronig i hyrwyddo calendr o ddigwyddiadau fel hwb | 2 | | Cymdeithas Treftadaeth Colwyn |



## Thema 3

# Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles

# Thema 3: Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles

## Cyflwyniad


Mae’r bennod hon yn canolbwyntio ar y cyfleusterau a’r asedau pwysig sydd ar gael ar hyn o bryd yn ardal y Cynllun Lle ynghyd â’u pwysigrwydd o ran hybu iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr.

Mae’r gymuned wedi dweud wrthym am fentrau cyffrous sydd eisoes yn digwydd yn yr ardal megis Clwb Gemau Gyda’n Gilydd dros Fae Colwyn a Chlwb Toastie ar Ffordd Rhiw sy’n brosiectau enghreifftiol y gellid edrych arnynt ar ledled ardal y Cynllun Lle.

Mae sefydliadau megis Gyda’n Gilydd dros Fae Colwyn yn unigryw ac maent yn ystyried sefydlu hwb cymunedol / safle parhaol yng nghanol y dref a allai gynnwys cyfleoedd i gynorthwyo pobl ifanc Bae Colwyn.

Mae'r gymuned yn teimlo'n falch o'r prosiectau sy'n cael eu cynnal ond hefyd yn teimlo bod llawer i'w wneud yn enwedig o ran darpariaeth ar gyfer ieuenctid yn yr ardal.

Bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg o’r cyfleusterau a’r asedau presennol sydd ar gael ym Mae Colwyn, gan ymgorffori barn y gymuned, cyn amlinellu set o bolisïau a chamau gweithredu i fynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd a ddynodwyd.



# Beth ddywedodd y gymuned wrthym?

Themâu Poblogaidd:

- Cynnal a chadw a gwella cyfleusterau chwaraeon
- Paratoi gofal iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd da
- Creu mannau diogel
- Cyfleusterau a gweithgareddau i bobl ifanc
- Darparu mannau Chwarae o ansawdd
- Cyfleusterau a Gofod i'r Gymuned
- Gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol i'r cyhoedd
- Darparu toiledau



*Maes Chwarae Porth Erias - credyd Nicholas Butterworth*

***Dyfyniadau gan y gymuned***

*"Mae angen clirio sbwriel o'r ffosydd draenio o amgylch y cae pêl-droed. Hefyd, mae angen gweddnewid y twll ymochel".*

*"Dylid ceisio eu barn (Meddygfeydd) ar ddatblygiadau lleol a allai effeithio ar ddarpariaeth eu gwasanaethau".*

*"Mae gormod o feddwon a defnyddwyr cyffuriau yn ymgynnull yma ac ar Ffordd yr Orsaf. Maent angen cefnogaeth ond maent yn wrthgymdeithasol iawn. Llawer o adroddiadau ar Facebook yn dangos hwy yno o'r peth cyntaf yn y bore. Maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus iawn wrth gerdded heibio iddyn nhw am 10yb !!!!"*

*"Dwi wedi gweld pobl ifanc yn chwarae Pêl-droed ar y Lawntydd Bowlio. Dwi ddim yn cymeradwyo hyn ond ble arall o fewn Parc Eirias sydd yna os nad yw'r modd gennych i ymuno â grŵp wedi'i drefnu."*

*"Mae Parc Llandrillo-yn-Rhos yn wych gyda'i bwll ymdrochi."*

*"Dyw sgwâr yn y dre ddim yn lle neis iawn; ddim yn apelio at dwristiaid na phobl leol oherwydd gweiddi ac iaith anweddus."*

## Adborth o'r Ymgynghoriad

Cyfleusterau Chwaraeon

- Roedd 54% o'r rhai a ymatebodd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu cyfleusterau hamdden a chwaraeon fel Parc Eirias.
- Mae'r cyfleusterau chwaraeon presennol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, fodd bynnag, roedd llawer o sylwadau'n galw am waith cynnal a chadw ychwanegol, yn arbennig ar y caeau o amgylch Clwb Rygbi Bae Colwyn.

Darpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- O'r arolwg ar-lein, gofal iechyd oedd y 3ydd maes uchaf am welliant.
- Mynegodd pobl yr angen am well gofal iechyd. Fodd bynnag, mae sylwadau am ofal iechyd yn amrywio ar draws ardal y Bae. Mae Meddygfa Cadwgan yn Hen Golwyn yn cael ei hystyried yn gadarnhaol tra bod cwynion am Feddygfa Rhoslan na ellir cael manteisio ar wasanaethau.
- Mae angen cefnogaeth i ddenu meddygon teulu i weithio mewn meddygfeydd lleol lle mae diffyg staff ar hyn o bryd. Dylid ymgynghori â gwasanaethau gofal iechyd cyn cymeradwyo ceisiadau a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol.
- Mynegwyd pryderon ynghylch gofal i bobl hŷn gyda galwadau am ofal yn y cartref a gwell darpariaeth gofal i bobl hŷn.



Mannau Mwy Diogel

- Roedd sylwadau'n nodi bod trigolion yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus o amgylch y Bae oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau gyda'r defnydd o alcohol a chyffuriau mewn mannau cyhoeddus. Meysydd allweddol o bryder: Parc Eirias, yr arglawdd, Ivy Street (maes parcio), Ffordd yr Orsaf, y tu allan i'r orsaf reilffordd.



Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Chyfleusterau i'r Ieuenctid

- Dim ond 28% o ymatebwyr a roddodd flaenoriaeth i ddiogelu cyfleusterau i bobl ifanc. Fodd bynnag, dywedodd 42% wrthym fod angen gwella gwasanaethau a chyfleusterau i bobl ifanc.
- Roedd sylwadau gan ymatebwyr yn amlinellu'n amlwg ddymuniad am fwy o bethau i bobl ifanc eu gwneud a mannau diogel i bobl ifanc gyfarfod. Yn enwedig mewn ymateb i grwpiau o bobl ifanc yn treulio amser ar y strydoedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol presennol. Mae'r sylwadau hyn yn sôn am bob rhan o Fae Colwyn.

Toiledau Cyhoeddus

- Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r toiledau cyhoeddus presennol ar hyd y promenâd ac yn Llandrillo-yn-Rhos. Fodd bynnag, maent wedi nodi'r angen am doiledau mwy newydd / gwell, a gwell mynediad i doiledau anabl, yn arbennig yng nghanol y dref.

Mannau Chwarae

- Fe werthfawrogir ardaloedd chwarae gan y gymuned, yn arbennig y pwll ymdrochi yn Llandrillo-yn-Rhos. Mae'r gymuned eisiau gweld mannau chwarae o safon dda gyda chyfarpar newydd ac fe amlygwyd yr angen i gynnal a chadw'r mannau chwarae presennol.

## Yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod eisiau’r canlynol yn y dyfodol:

- Gwell cyfleusterau yng nghanol y dref
- Gwell ddarpariaeth a gweithgareddau i ieuenctid
- Cymuned well a gwelliannau wrth deithio o gwmpas

Mae’r mannau sy’n bwysig i blant ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Y Traeth
- Canolfan siopa Bay View
- Parc Sgrialu
- Y Sŵ Mynydd Cymreig
- Parc Eirias
- Theatr Colwyn
- Canolfan Hamdden Colwyn




## Syniadau gan y Gymuned

- Darpariaeth well i wasanaethau cymorth cyffuriau ac alcohol.
- Canolfan gymunedol bwrpasol yn Llandrillo-yn-Rhos.
- Gofynnwyd am le chwarae ger canol y dref ynghyd â champfeydd awyr agored. Un awgrym oedd troi’r sgwâr gyferbyn ag Ivy Street yn barc cymunedol i blant lleol a thrac BMX.
- Roedd llawer o aelodau'r gymuned yn cefnogi cyfleusterau ieuenctid rhwng cenedlaethau, gyda phobl hŷn yn rhannu profiad a sgiliau gyda phobl ifanc ac i'r gwrthwyneb.
- Teimlai'r gymuned y byddai annog mwy o bobl yn defnyddio Ffordd yr Orsaf yn lleihau pryderon diogelwch.

# Beth wnaethom ni amdano?

Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd gan y gymuned, casglwyd gwybodaeth bellach trwy ymchwil bwrdd gwaith a chasglu tystiolaeth a arweinir gan y gymuned i ddarparu gwybodaeth benodol fanylach yn ymwneud â Bae Colwyn. Roedd hyn yn cynnwys casglu data lleol ar gyfleusterau presennol mewn map asedau (gweler isod) ac archwiliad maes chwarae. Arweiniodd hyn at nodi set o amcanion ar gyfer y Cynllun Lle a ddefnyddiwyd wedyn i ddatblygu cyfres o bolisïau posibl ar gyfer y cynllun ac awgrymwyd camau gweithredu y gall y gymuned eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

## Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles ym Mae Colwyn

Mae lles ac iechyd trigolion ardal y Cynllun Lle yn bwysig iawn.

Ers Covid-19 mae awydd cynyddol i gynnal darpariaeth ragorol i alluogi trigolion i wneud ymarfer corff, cwrdd â ffrindiau mewn mannau cymunedol diogel o safon dda ac i bobl ifanc gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon a gweithgareddau mewn amgylcheddau diogel.

Dywedodd llawer o bobl wrthym am eu dymuniad i'r cyfleusterau presennol parhau a'u gwella, yn enwedig cyfleusterau a gweithgareddau chwaraeon gyda ffocws ar bobl ifanc, yn ogystal â darparu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel.

***Polisïau CDLl Perthnasol***

Polisi CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol


Polisi CFS/6 – Diogelu Cyfleusterau Cymunedol y tu allan i'r ganolfan isranbarthol a chanol y dref.

Polisi CFS/15 – Cyfleusterau Addysgol

***Dogfennau Perthnasol Eraill***

- Tlodi plant, Dogfen Ymchwil y Sir, CBSC (2012)
- Data Demograffeg Byrddau Iechyd y Cyhoedd
- Map asedau T4CB a Chynllun Gyrru Newid
- Archwiliad Mannau Chwarae (CBSC)
- Astudiaeth o gyfleusterau cymunedol
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028 (Drafft)
- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru Ebrill 2022
- Data System Siarad a Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru, gwefan Heddlu Gogledd Cymru


## Ein Hasedau Cymunedol



Dywedodd y gymuned wrthym fod y ddarpariaeth o chwaraeon o safon dda ar draws Bae Colwyn o bwysigrwydd mawr iddynt. Roeddynt yn gwerthfawrogi mannau cymunedol yn fawr iawn ac eisiau i doiledau fod yn hygyrch i bawb.

Fe nodwyd yn ystod yr ymgysylltu â'r gymuned fod unigrwydd ac arwahanrwydd yn peri pryder ar ôl Covid ac y byddai angen i brosiectau yn y dyfodol roi ystyriaeth arbennig i hyn, yn enwedig gyda'r genhedlaeth hŷn.

Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd y pryder yn y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn enwedig yng nghanol tref Bae Colwyn - roedd hyn yn cael effaith negyddol ar bobl yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio cyfleusterau gyda'r nos. Mae Cyfrifiad 2021 yn dweud wrthym mai 43.7% o'r boblogaeth yn ardal y Cynllun Lle sydd ag iechyd da iawn (gweler y siart isod) – fodd bynnag mae 21% yn dod o fewn y categorïau iechyd gweddol / gwael.




## Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles – Amcanion

**Nod:** Bydd ein mannau diogel yn cefnogi gweithgareddau cymunedol a diwylliannol ac yn sicrhau bod darpariaeth iechyd a lles yn diwallu anghenion ein holl drigolion yn enwedig gan feithrin ein pobl iau.

| **Rhif yr Amcan** | **Amcanion allweddol o Bennod Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles** |
|---|---|
| Amcan 1. | Cynnal a gwella cyfleusterau ym Mae Colwyn yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth ieuenctid a gweithgareddau diwylliannol |
| Amcan 2. | Darparu chwarae a chwaraeon o ansawdd da |
| Amcan 3. | Creu mannau diogel a chroesawgar i bawb |
| Amcan 4. | Darparu iechyd a gofal cymdeithasol o safon |
| Amcan 5. | Darparu mannau a chyfleusterau cymunedol o safon |
| Amcan 6. | Darparu toiledau hygyrch am ddim i bawb, ar draws Bae Colwyn |

## Egwyddorion y Cynllun Lle - Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a lles

| Cyfeirnod Egwyddor | Egwyddor | Amcan cysylltiedig | Lle mae'n berthnasol |
|---|---|---|---|
| FAHW/1. | Fe gefnogir ceisiadau sy'n hyrwyddo mannau defnydd cymysg bywiog a chynaliadwy yng nghanol trefi, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â diffyg pobl yn ymweld â nhw. Dylai hyn fod gyda'r nod o wella diogelwch, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella cydlynu cymdeithasol a darparu cyfleoedd ar gyfer diwylliant, dysgu a sgiliau. | 1,3,5 | Canol y Dref (Ffordd yr Orsaf / Maes Parcio Canolfan Bay View / tiroedd Eglwys St Paul / maes parcio Ivy Street / Ffordd Sea View). Creiddiau manwerthu, Parc Min Y Don, Gerddi Wynn, First Avenue / Second Avenue |
| FAHW/2. | Fe gefnogir ceisiadau am ganolfannau a chyfleusterau ieuenctid a dylid rhoi blaenoriaeth i gyfraniadau A106 i ddarparu cyfleusterau i bobl ifanc gan gynnwys:<br>• Mannau dan orchudd pwrpasol / mannau cyfarfod / siediau ieuenctid / clybiau ieuenctid<br>• Cysgodfeydd ar y promenâd gyda Wi-Fi a chyfleusterau gwefru<br>• Mannau yn yr awyr agored i bobl ifanc yn eu harddegau e.e., parkour, pêl-fasged<br>• Mannau i fandiau<br>• Darparu chwarae meddal / hamdden i blant<br>• Mannau chwarae | 1,2,3,5 | Canol Trefi – Hen Golwyn, Bae Colwyn Llandrillo yn Rhos (mae angen cyfleusterau'n seiliedig ar ieuenctid) |
| FAHW/3. | Fe gefnogir ceisiadau sy'n cynyddu cyfleusterau cymunedol ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys y rhai sy'n: | 4,5 | Llandrillo yn Rhos<br>Hen Golwyn<br>Bae Colwyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cryfhau isadeiledd y gofal iechyd i hyrwyddo'r ddarpariaeth o wasanaeth o ansawdd da e.e., meddygfeydd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi newid defnydd adeiladau gwag presennol.<br>• Creu darpariaeth dan do megis chwaraeon a gemau dan do (e.e., bowlio, saethyddiaeth, yoga, golff) a hamdden (e.e., gemau laser, ystafelloedd dianc, chwarae meddal i bobl ifanc yn eu harddegau a disgos i rai dan 18 oed). I gynnwys gweithgareddau synhwyraidd / arbenigol lle bo'n berthnasol.<br>• Darparu canolfan gymunedol bwrpasol yn ardal Llandrillo-yn-Rhos. | | Unedau gwag yn Ffordd yr Orsaf |
| FAHW/4. | Dim ond i chwaraeon awyr agored ag i ddarpariaeth sy'n dangos dyluniad hygyrch o safon dda, sydd wedi'i oleuo'n dda ac sy'n ddiogel i bawb a roddir cefnogaeth. | 3,5 | |
| FAHW/5. | Ni gefnogir unrhyw ddatblygiadau os ydynt yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth / cyfleusterau chwaraeon neu le chwarae presennol. | 1, 2 | |
| FAHW/6. | Rhoddir cefnogaeth i wasanaethau cyffuriau ac alcohol newydd a phresennol yn yr ardal. | 4 | |

## Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles - Prosiectau / Camau Gweithredu

| Cyfeirnod Gweithredu | Camau Gweithredu / Prosiectau | Amcan Cyswllt | Erbyn Pryd B / C / H | Corff Arweiniol / Cydweithwyr? |
|---|---|---|---|---|
| FAHW/A1. | Adolygu canfyddiadau cymunedol o ddiogelwch yn ardal Bae Colwyn a gweithio i liniaru pryderon cymunedol. Gall camau gweithredu gynnwys:<br>• Adolygu goleuadau a theledu cylch cyfyng er diogelwch<br>• Prosiect a fydd yn lleddfu materion gwrthgymdeithasol gyda'r nos<br>• Ymgysylltu â'r heddlu cymunedol lleol i wella diogelwch | 3 | Byr | Tîm Plismona Bro<br>Y Cyngor Tref<br>Rheolaeth TCC (CBSC)<br>Cymuned Busnes<br>Gwasanaeth Ieuenctid Colwyn<br>Partneriaeth T4CB / Y Cyngor Tref |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Cefnogi gweithgareddau / darpariaethau ar gyfer pobl iau, yn enwedig gyda'r nos | | | |
| FAHW/A2. | Ymchwilio i ddarpariaeth a chyllido toiledau 24/7 newydd, yn arbennig o fewn mannau agored a mannau cyhoeddus. Dylid gosod arwyddion digonol ar gyfer pob toiled newydd. | 6 | Byr | CBSC, Y Cyngor Tref<br>Fforwm Busnes, T4CB |
| FAHW/A3. | Ymchwilio i ffrydiau ariannu parhaus ar gyfer darparu chwarae i ieuenctid a chwaraeon. | 1 | B / C / H | Gwasanaeth Ieuenctid Colwyn, CBSC – Canolfan Teulu, T4BC, Cyfiawnder Ieuenctid |
| FAHW/A4. | Archwilio'r ddarpariaeth bresennol o gyfleusterau cymunedol a dynodi cyfleoedd a chyllid ar gyfer bylchau yn y ddarpariaeth ledled ardal y Cynllun Lle, gan gynnwys:<br>• Gwasanaethau iechyd gan gynnwys darpariaeth cyn ac ôl-enedigol<br>• Cyfleusterau chwaraeon / campfa / ffitrwydd i bobl ifanc (gan gynnwys awyr agored)<br>• Caeau AstroTurf 4G / Parciau Sgrialu<br>• Gweithwyr ieuenctid / darparu gwasanaethau ieuenctid / grwpiau plant bach<br>• Darparu chwarae o ansawdd da (lleoliad yng nghanol y dref e.e., Ivy Street) | 5, 2 | B / C / H | Y Cyngor Tref, Y Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Ieuenctid Ysgolion, Mannau Cymunedol, Canolfan Teulu (adran canolog)<br>Coleg Llandillo, Canolfan Hamdden Colwyn, T4CB, Cytun<br>Gwasanaeth y Llyfrgell Cymunedol |
| FAHW/A5. | Ymchwilio i a chefnogi prosiectau sy'n brwydro yn erbyn arwahanrwydd ac unigrwydd e.e. Digwyddiadau 'Dewch i ni gwrdd' | 3 | Byr | Gwasanaeth y Llyfrgell Cymunedol (hybiau cymunedol) Y Cyngor Tref Rhwydwaith Llesiant |
| FAHW/A6. | Paratoi rhestr o fannau cymunedol yn ardal Bae Colwyn a hyrwyddo'r defnydd o fannau cymunedol y gellir eu rhentu i'r gymuned ehangach. | 5 | Byr / Canolig | Y Cyngor Tref<br>Gwasanaeth Llyfrgell Conwy<br>T4CB |



## Thema 4


# Symud o Gwmpas – Colwyn Cysylltiedig

# Thema 4: Symud o Gwmpas – Colwyn Cysylltiedig

## Cyflwyniad

Mae mynd o gwmpas Bae Colwyn mewn modd diogel, uniongyrchol a hygyrch yn neges allweddol a ddaeth o’r cyfnod ymgysylltu cymunedol.

Bydd y bennod hon yn canolbwyntio ar y pwysigrwydd o hyrwyddo teithio llesol yn y Bae. I sicrhau, lle bo modd, y gellir gwneud siwrneiau heb ddibyniaeth ar y car a bod cerdded a beicio, os yn bosibl, yn ddull trafnidiaeth naturiol ar gyfer teithiau byr bob dydd neu ar y cyd â dulliau trafnidiaeth cynaliadwy eraill (bws a thrên). Byddai hyn o fudd nid yn unig i iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr ond byddai’n annog gwell cysylltiadau rhwng canol y trefi a’r promenâd, sy’n ddiffygiol.




*Map Teithio Llesol Bae Colwyn*

Fe wnaed llawer eisoes i hyrwyddo cerdded a beicio ar hyd y Promenâd ond i’r rhai yr ydym wedi siarad â nhw mae yna heriau o hyd fel diffyg mannau gorffwys, toiledau a gwahanu defnyddwyr. Yr uchelgais yw sicrhau bod ymwelwyr sy’n cyrraedd y promenâd yn uniongyrchol yn treulio amser yn gwneud gweithgareddau eraill. Mae llawer gall ymwelwyr wneud i’r de o ardal y promenâd – caffis a bwytai, theatr ac orielau, siopau annibynnol a chyfleusterau chwaraeon eraill sydd gan yr ardal i’w cynnig. Gyda chysylltiadau da o'r promenâd gellid gwneud y teithiau hyn yn haws i drigolion ac ymwelwyr.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gwneud hi’n ofynnol i’r Cyngor Sir hyrwyddo llwybrau teithio llesol a chyfleusterau yn y Bae. Mae llwybrau yn cael eu hystyried at y dyfodol o hyd ac mae llawer o waith wedi'i wneud yn yr ardal. Gellir dod o hyd i'r Map Teithio Llesol ar gyfer Bae Colwyn yma https://datamap.gov.wales/maps/active-travel-network-maps/ ac mae'n dangos y llwybrau cerdded a beicio presennol â llwybrau'r dyfodol.

# Beth ddywedodd y gymuned wrthym ni?

## Themâu Poblogaidd

1. Mynediad rhwng canol y dref a'r promenâd
2. Nifer cyfyngedig o fannau gorffwys
3. Hyrwyddo teithio llesol
4. Cyflwr gwael y ffyrdd a’r palmentydd
5. Rheoli Traffig
6. Parcio (yn enwedig ar hyd glan y môr)
7. Pedestreiddio

***Dyfyniadau gan y gymuned***

*“Mae palmentydd garw ym mhobman; mor anodd i bobl gydag anableddau.”*

*“Mae’r prom yn daith gerdded wych ond does unman i eistedd ar ei hyd!”*

*“Gwell mynediad i’r prom, pam nad oes croesfan i gerddwyr i’r pier - croesfan beryglus”*

*“Mae llwybrau troed yn broblem. Gwteri yn rhedeg trwy lwybrau troed anwastad.”*

*“Cyfyngiadau amser parcio hirach. 1½ awr yn rhy fyr”*

*“Helpu busnesau bach ar y prom; gadael i bobl leol barcio am ddim ar y prom.”*



## Adborth Allweddol o'r Ymgynghoriad:

1. Mae'r gymuned wedi nodi materion am y cysylltiad rhwng canol y dref a glan y môr / promenâd. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - Diffyg llwybrau uniongyrchol i gerddwyr
    - Diffyg arwyddion clir, yn enwedig i dwristiaid
    - Diffyg llinell welediad rhwng canol y dref a glan y môr

2. Mae'r gymuned wedi dynodi nifer cyfyngedig o feinciau, mannau gorffwys ac ardaloedd cysgodol, yn arbennig mewn arosfannau bysiau (h.y. Ffordd Ebberston, Heaton Place, Gerddi Diana) ac ar hyd y promenâd. Mae hyn yn eithrio rhai aelodau o'r gymuned rhag teithio llesol.

3. Mae cymunedau wedi mynegi'r pwysigrwydd o ddewisiadau teithio llesol. Fodd bynnag, mae problemau ar hyn o bryd o ran sut mae teithio llesol yn cael ei ddarparu.
    - Gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr mewn mannau a rennir, h.y., ar hyd y promenâd
    - Mae angen mwy o lwybrau cerdded a beicio a fydd yn cynyddu'r cysylltedd ar draws ardal ehangach y Bae
    - Nifer cyfyngedig o fannau croesi i gerddwyr
    - Darpariaeth gyfyngedig o drafnidiaeth gyhoeddus ar yr echel Gogledd-De

4. Mae cyflwr y ffyrdd a'r palmentydd wedi bod yn broblem a nodwyd dro ar ôl tro yn y cyswllt hwn. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd gyda thyllau, palmentydd anwastad, llystyfiant wedi gordyfu a gwreiddiau coed ar balmentydd. Mae hyn wedi achosi pryderon diogelwch a mynediad i aelodau'r gymuned sydd ag anableddau ac sy'n oedrannus.

5. Bu problemau o ran goryrru a thraffig. Ymhlith y meysydd a nodir yw: Rhodfa Penrhyn, Cayley Embankment, Groes Road, Ffordd Ael-y-Bryn ayb.

6. Mae parcio wedi bod yn bryder cyson gyda'r gymuned. Er bod rhai trigolion yn bryderus ynghylch ansawdd y parcio sydd ar gael, mae llawer o bryderon yn canolbwyntio ar y dymuniad i barcio am ddim yng nghanol y dref ac ar hyd y promenâd, a chyfnodau parcio hirach ar gyfer siopa. Cododd y gymuned bryderon am gost parcio ar hyd y pier i bobl leol.

**Syniadau’r gymuned:**

- Mae'r gymuned wedi nodi'r cyfle i ddatblygu mynediad uniongyrchol i gerddwyr o'r orsaf drenau ar waelod Ffordd yr Orsaf i'r promenâd. Gallai hyn o bosibl ddefnyddio'r llwybr presennol rhwng yr hyn oedd yn blatfform 3 a'r promenâd.

- Ychwanegu mannau croesi i gerddwyr ar hyd y promenâd gan rhoi blaenoriaeth i gerddwyr. Yn enwedig rhwng y danffordd a'r pier.

- Gwahanu cerddwyr a llwybrau beicio lle mae'n bosibl i wneud hyn.

- Gostwng terfynau cyflymder er mwyn diogelwch mewn cyrchfannau allweddol.

- Lleihau traffig ar hyd y promenâd gyda bysiau gwennol rhwng y dref a'r promenâd.

- Gweithredu gwasanaeth parcio a theithio lleol i leihau traffig yng nghanol y dref.

# Beth wnaethom ni amdano?

Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd gan y gymuned, casglwyd gwybodaeth bellach trwy ymchwil bwrdd gwaith a chasglu tystiolaeth a arweinir gan y gymuned i ddarparu gwybodaeth benodol fanylach yn ymwneud â Bae Colwyn. Roedd hyn yn cynnwys casglu data cyfrifiad cyfredol a chreu Map Cysylltiadau (gweler isod).

Arweiniodd hyn at nodi set o amcanion ar gyfer y Cynllun Lle a ddefnyddiwyd wedyn i ddatblygu cyfres o bolisïau posibl ar gyfer y cynllun ac awgrymwyd camau gweithredu y gall y gymuned eu rhoi ar waith i fynd i’r afael â rhai o’r materion hyn.

# Symud o gwmpas ym Mae Colwyn

Ar hyn o bryd mae'r A55 a'r rheilffordd yn rhwystr ffisegol rhwng ardal adeiledig y Bae a glan y môr, gan arwain at broblemau cysylltedd i drigolion ac ymwelwyr â'r ardal. Mae'r sefyllfa hon yn golygu bod yn rhaid i bobl, ac eithrio'r rhai yn Llandrillo-yn-Rhos, ddibynnu ar fannau croesi penodol a nodir ar y map i gael mynediad i'r promenâd. Mae gwelliannau adfywio ar hyd y promenâd yn y blynyddoedd diwethaf wedi hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan ar gyfer beicio, mynd â chŵn am dro a defnyddio amgylchedd traeth glân. Fodd bynnag, bydd llawer yn gyrru'n syth i'r promenâd heb ddefnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau yn union i'r de



*Mannau croesi'r A55.*


Dywedodd y gymuned wrthym eu bod yn ymfalchïo yn y lan y môr, y promenâd a'r pier ac felly mae'n hanfodol bod atebion cysyllltedd yn cael eu hystyried gan gynnwys gwell arwyddion a gwell mynediad a mannau croesi. Dangosir un groesfan o'r fath ar dudalen 71 lle mae cyswllt cerddwyr o ganol y dref ym Mae Colwyn i'r promenâd. Nid oes croesfan sebra yma i helpu cerddwyr groesi'n ddiogel.

Un prosiect sydd wedi'i godi ar sawl achlysur drwy ymgysylltu â'r gymuned yw'r posibilrwydd o ail-agor y cysylltiad rhwng Platfform 3 yr orsaf drenau a'r promenâd. Mae hwn wedi'i gau ar hyn o bryd, ond byddai'n ased gwirioneddol pe bai'n cael ei ailagor, gan hwyluso mynediad uniongyrchol i'r traeth i ymwelwyr a hwyluso'r cysylltedd rhwng y traeth a'r dref ymhellach.


Yn ogystal, byddai agor y llwybr hwn yn creu cyfle i ailagor adeilad 1 - platfform 3 ar y map cyfagos gyda defnyddiau masnachol neu gymunedol posibl. Dangoswyd diddordeb cymunedol eisoes yn adeilad 2.

Dywedodd llawer o drigolion wrthym fod cyflwr presennol y palmentydd a'r ffyrdd yn peri pryder iddynt o ran cerdded a beicio o amgylch Bae Colwyn. Roedd y rhai â phroblemau symudedd yn ei chael hi'n anodd symud o gwmpas yn ddiogel.

Mae parcio hefyd wedi bod yn bwnc o ddiddordeb yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda llawer o drigolion yn nodi y byddai gostwng ffioedd parcio ar hyd y promenâd i hwyluso cerdded cŵn ac ymarfer corff o fantais fawr i drigolion. Yn ogystal, mae'r cyfnod a ganiateir i barcio yn aml yn rhy fyr - tynnodd siopwyr hŷn sylw at y ffaith bod 1.5 awr yn amser rhy fyr i wneud eu siopa wythnosol, yn enwedig i'r rhai â phroblemau symudedd.



*Llun o'r awyr yn dangos y danffordd i gerddwyr rhwng canol y dref a'r promenâd (a dynnwyd cyn adeiladu'r pier)*




*Llun or awyr yn dangos y llwybr segur presennol i gerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd a'r promenâd.*

Mae dibyniaeth y car ar gyfer cymudo yn dal yn uchel ac mae data'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos bod 57% o gymudwyr yn teithio mewn car neu fan, a dim ond 14% o gymudwyr yn defnyddio dulliau teithio llesol fel cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (Cyfrifiad, 2021).


Mae'r Cynllun Lle mewn sefyllfa gref i hyrwyddo teithio llesol dros gyfnod y cynllun ac i hyrwyddo cerdded a beicio fel yr amlinellir yn hierarchaeth Llywodraeth Cymru *(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: Llwybr Newydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Newydd 2021).* Mae'r diagram isod yn dangos y pellteroedd y mae pobl yn teithio i fynd i weithio ym Mae Colwyn – yn ddiddorol, gyda 23% bellach yn gweithio o gartref (*ffynhonnell: Cyfrifiad, 2021.)*

***Polisïau CDLl Perthnasol***

Polisïau Strategol: STR/1 – STR/5 (Trafnidiaeth gynaliadwy, parcio a theithio)

***Dogfennau Perthnasol Eraill***

- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2014
- Canllawiau Deddf Teithio Llesol (Gorffennaf 2021) Cymru https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/active-travel-act-guidance.pdf
- Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (CBSC / Trafnidiaeth Cymru)
- Gwybodaeth am Drawsnewid Trefi
- Strategaeth Teithio Llesol Canol Tref
- Astudiaeth Gyntaf o Ganol Trefi Conwy (Litchfields, Mehefin 2022)
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028 (Drafft)




*Inffograffeg yn dangos pellter cymudo preswylwyr Bae Colwyn (Data: Cyfrifiad Cenedlaethol, 2021).*

# Symud o Gwmpas – Colwyn Gysylltiedig - Amcanion

**Nod:** Bydd ein rhwydwaith lleol yn hyrwyddo cysylltedd trwy deithio llesol tra'n cadw ni'n gysylltiedig y tu hwnt i'r ardal. Byddwn yn sicrhau bod polisi trafnidiaeth cenedlaethol yn cael ei deilwra i gyd-fynd â blaenoriaethau lleol.

| **Rhif yr Amcan.** | **Symud o Gwmpas – Amcanion Colwyn Cysylltiedig** |
|---|---|
| Amcan 1. | Gwella rhwyddineb mynediad rhwng canol y dref a'r promenâd gan sicrhau mynediad diogel i'r traeth i bawb |
| Amcan 2. | Hyrwyddo Teithio Llesol a darparu mannau gorffwys ychwanegol |
| Amcan 3. | Gwella arwyddion i gerddwyr a cherbydau a chyfleoedd i ganfod y ffordd er mwyn hyrwyddo mynediad diogel i gerddwyr, beicwyr a thwristiaid |
| Amcan 4. | Gwella'r ddarpariaeth parcio i bawb (twristiaid a'r gymuned leol) |
| Amcan 5. | Gwella rheolaeth traffig i hybu diogelwch ffyrdd gan gynnwys cyflwr ffyrdd a phalmentydd |
| Amcan 6. | Parhau i ddilyn Polisi Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru – tra'n ei deilwra i fodloni anghenion a blaenoriaethau lleol |

## Egwyddorion y Cynllun Lle - Symud o Gwmpas

| Cyfeirnod Egwyddor | Egwyddor | Amcan Cysylltiedig | Lle mwyaf perthnasol os yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| GA1. | Rhoi cefnogaeth i isadeiledd sy'n hwyluso cysylltedd trwy deithio llesol. Cefnogir datblygiad sy'n hwyluso cysylltiadau llesol a mentrau teithio llesol ehangach e.e. storio beiciau a raciau, mannau gorffwys pob tywydd, llwybrau beicio ychwanegol, llogi a thrwsio beiciau. Dylid gosod arwyddion clir ar bob llwybr newydd. Rhestrir ardaloedd allweddol o gysylltedd rhwng y dref a mwynderau lleol yn y golofn ar y dde. | 1,2,3 | Tref a glan y môr, cysylltiadau â Pharc Eirias, cysylltiadau o'r dref i'r orsaf rheilffordd, cysylltiadau ar draws yr A55 |
| GA2. | Lle ceisir cyllid a chyfraniadau A106 gan ddatblygwyr drwy ddatblygiadau newydd – dylid hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio newydd a gwelliannau (e.e. gwell cysylltiadau ar draws ardal y Cynllun Lle ac arwyddion). | 1,2,3 | |
| GA3. | Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gynnwys cysylltiadau llwybrau cerdded a beicio gyda llwybrau teithio llesol presennol, tai presennol, mannau agored cyhoeddus a gwasanaethau lleol. | 1,2,3 | |
| GA4. | Bydd ceisiadau a fydd yn gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu cefnogi yn enwedig ar yr echel Gogledd-De lle mae darpariaeth yn anaml | 2 | |
| GA5. | Fe gefnogir cynlluniau i wella diogelwch ffyrdd yn y dyfodol sy'n rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n cerdded, yn olwyno, yn defnyddio pramiau, cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd o fewn yr hierarchaeth drafnidiaeth. Gan gynnwys gwelliannau i wyneb palmentydd a llwybrau troed lle bo’r cyflwr presennol yn achosi problemau hygyrchedd. | 5 | Rhodfa Penrhyn, Cayley bank, Groes Road Ffordd Ael-y-Bryn, Ffordd Abergele |
| GA6. | Creu parth cyrraedd i ymwelwyr â Bae Colwyn i gyfeirio a derbyn gwybodaeth am atyniadau a chyferbwyntiau. | 1 | Lle tu allan i’r orsaf rheilffordd |

## Prosiect / Camau Gweithredu - Symud o Gwmpas

| Cyfeirnod Gweithredu | Camau Gweithredu / Prosiectau | Amcan Cyswllt | Erbyn Pryd (B/C/H) | Mudiad Arweiniol / Cydweithwyr? |
|---|---|---|---|---|
| GA/A1. | Ymchwilio i gyfleoedd am gyllid i wella arwyddion ar draws Bae Colwyn – mae enghreifftiau yn cynnwys:<br>• Arwyddion newydd o'r A55 i gyfeirio ymwelwyr i barcio yng nghanol y dref i gael mynediad at y traeth.<br>• Arwyddion i ddangos amseroedd cerdded / beicio a phellter ar draws y Bae e.e. 2 funud o gerdded at y traeth<br>• Arwyddion i hyrwyddo cysylltedd rhwng y dref, y pier a glan y môr.<br>• Arwyddion twristiaeth newydd – ymwneud ag ysgolion yn y gwaith ail-ddylunio i greu naws / brand lleol. | 3 | Byr | CBS Conwy<br>Priffyrdd<br>Y Cyngor Tref<br>Fforwm Busnes<br>Ysgolion |
| GA/A2. | Ymchwilio i'r ddarpariaeth o gadeiriau olwyn addas i'r traeth. | 1 | Byr | Y Cyngor Tref |
| GA/A3. | Sefydlu cysylltiadau â darparwyr trafnidiaeth leol e.e., Trafnidiaeth Cymru i sicrhau yn y dyfodol bod llwybrau, arwyddion, ailagor Platfform 3 i’r promenâd a gweithgareddau hyrwyddo yn cael eu blaenoriaethu. | 2 | Byr | Y Cyngor Tref<br>Trafnidiaeth Cymru,<br>Darparwyr trafnidiaeth |
| GA/A4. | Archwilio'r angen ac ymarferoldeb o gyflwyno system trwydded parcio ar y stryd. | 4 | Canolig | Y Cyngor Tref<br>**CBS Conwy** |
| GA/A5. | Ymchwilio ardaloedd allweddol am fannau croesi ychwanegol e.e., Ffordd Abergele / Ffordd Conwy ac ardal tanffordd y promenâd a gweithio gyda CBS Conwy i gyflawni hyn. | 5 | Canolig | Y Cyngor Tref<br>CBS Conwy |
| GA/A6. | Cefnogi a gweithredu’r ddarpariaeth o fannau gorffwys cysgodol newydd – yn enwedig ar hyd y Promenâd ac arosfannau bysiau yn Ffordd Ebberston, Heaton Place a Gardd Diana. | 2 | Byr | Y Cyngor Tref<br>CBS Conwy |

## Thema 5

# Hyrwyddo Colwyn Werdd



*Llun: Catherine Bale*

# Thema 5 – Hyrwyddo Colwyn Werdd

## Cyflwyniad



*Credyd y Llun: Tasmin Powell*

Bydd y bennod hon yn archwilio pwysigrwydd mannau agored ac isadeiledd gwyrdd ym Mae Colwyn. Mae'r gymuned wedi nodi mannau agored fel eu blaenoriaeth uchaf. Mae'r gymuned yn falch iawn o'r mannau agored yn y Bae ac maent am iddynt gael eu hamddiffyn rhag datblygiad ac iddynt gael eu gwella.

Isadeiledd Gwyrdd (GI) o fewn y Bae yw'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd, a llynnoedd sy'n creu gofod rhyngddynt ac yn cysylltu lleoedd *(ffynhonnell: Polisi Cynllunio Cymru).* Mae'r llefydd hyn yn darparu ecosystemau sy'n hanfodol i bobl a natur ffynnu. Mae'r Cynllun Lle yn cydnabod y Bae am ei dirwedd amrywiol o'r arfordir a'r traethau i'w fannau agored ar dir uwch ar ymylon deheuol ardal y Cynllun Lle. Mae'n bwysig bod yr ardaloedd hyn yn cael eu gwarchod a'u gwella gyda chynefinoedd yn cael eu hadfer a rhwydwaith GI yn cael ei gynnal lle bo modd. Mae'r isadeiledd gwyrdd yn y Bae yn arbennig o bwysig ar gyfer annog a galluogi trigolion ac ymwelwyr i fwynhau ffordd iach o fyw a hybu lles.

Mae angen i'r Cynllun Lle hefyd ystyried y cysylltedd rhwng y mannau hyn er mwyn iddynt fod yn hygyrch i bawb, i fod ar gael fel llwybrau teithio llesol yn enwedig ar gyfer cerdded a beicio'n ddiogel.

Bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth o'r mannau agored presennol cyn amlinellu set o bolisïau a chamau gweithredu sydd â'r nod o gadw a hyrwyddo darpariaeth mannau agored ar gyfer y dyfodol.

# Beth ddywedodd y gymuned wrthym?

Themâu poblogaidd

- Gwarchod mannau agored a bioamrywiaeth
- Dathlu a hyrwyddo mannau gwyrdd
- Gwneud defnydd llawn o fannau agored
- Rheoli sbwriel a chadw Bae Colwyn yn daclus
- Cefnogi tyfu cymunedol a rhandiroedd
- Gwyrddu a phlannu coed
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy
- Llystyfiant wedi gordyfu ar lwybrau troed

Adborth allweddol o'r ymgynghoriad:

- Mae mannau gwyrdd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned, gyda 65% o ymatebwyr yr arolwg yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu mannau agored (e.e., Bryn Euryn).
- Dywedodd dros 60 o bobl eu bod yn "caru" y mannau agored presennol. Ymhlith y mannau gwyrdd ac agored allweddol a grybwyllwyd gan y gymuned mae Parc Eirias, Bryn Euryn, Nant-y-Glyn, Fairy Glen, Tan-y-Groes.
- Ymhlith y bobl ifanc roedd diogelu mannau gwyrdd yn flaenoriaeth allweddol.
- Efallai bod Parc Eirias yn cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd fel man gwyrdd ac agored. Mae'r gymuned wedi nodi'r angen am fwy o atyniadau i deuluoedd ac atyniadau i annog pobl i ddod i mewn i'r parc.
- Mae angen sicrhau caiff Parc Eirias ei gynnal a'i gadw (e.e., rheoli graffiti) a chefnogi darpariaeth ymarfer corff ffurfiol tra hefyd yn sicrhau gwarchod bioamrywiaeth.

***Dyfyniadau gan y gymuned***

*Parc Eirias "ardal werdd fawr sy'n ddiogel i bawb".*

*Parc Eirias - Gwarchod y man gwyrdd, dim datblygiadau pellach o fewn yr ardal werdd.*

*"Bryn Euryn - man gwyrdd agored gwerthfawr i bobl leol ac ymwelwyr gerdded ynddo. Angen gwell hyrwyddiad - nid yw'n syndod nad yw pobl leol yn gwybod amdano."*

*"Angen cadw ac ychwanegu gwerth at 'natur werdd' y dref"*

*Mae angen mwy o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc ym Mharc Eirias. Roedd yn arfer bod yn fendigedig.*

*"Mwy o atyniadau i deuluoedd. Mae Parc Eirias wedi dod yn fan gwag heb ddim yno i deuluoedd na thwristiaid"*

*"Mae baw cŵn yn broblem, nid yw pobl yn trafferthu codi ar ôl eu cŵn ar y mannau gwyrdd hyn, er bod bin yno! Ac mae'n dod yn bennaf gan gŵn mawr, mae'n berygl i unrhyw un, yn enwedig plant, gamu ar y mannau glaswelltog yno."*

*"Mae angen cerrig ar lwybrau Bryn Cadno / Mynydd y Cŵn - Problemau baw cŵn!"*

- Roedd y gymuned yn teimlo'n gryf am yr angen i reoli sbwriel a baw cŵn ar draws yr ardal gan ganolbwyntio'n benodol ar fannau gwyrdd megis Fairy Glen.
- Mae angen mwy o reolaeth a buddsoddiad yn y rhandiroedd presennol. E.e., dywedir bod angen llwybrau a chyfleusterau toiled ar Randiroedd Ffordd Dinerth.
- Roedd yr adborth ynglŷn â mannau chwarae yn galw am ardal chwarae ger canol y dref yn ogystal â gwarchod y mannau chwarae presennol rhag datblygiad a'u cynnal a'u cadw'n briodol.
- Roedd y gymuned yn cefnogi mwy o blannu coed.
- Roedd y gymuned yn cefnogi cynyddu bioamrywiaeth trwy leihau torri gwair, cefnogi blodau gwyllt.
- Roedd nifer o sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy, yn unfrydol o blaid. Roedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn arbennig o gryf ymhlith pobl ifanc gyda chefnogaeth eang i ddatblygu ynni gwynt y môr ymhellach.
- Bu pryderon am sbwriel a baw cŵn ar hyd y traeth, yn rhannol oherwydd newidiadau a achoswyd gan fwy o dywod yn y Bae.

Syniadau gan y Gymuned:

- Parc Eirias:
  - Datblygu mwy o weithgareddau ym Mharc Eirias ar gyfer twristiaid a phobl ifanc
  - Datblygu lleoedd bwyta ym Mharc Eirias
  - Datblygu canopi dros barc sglefrio Parc Eirias fel y gellir ei ddefnyddio ar ddyddiau glawog
  - Ychwanegu llifoleuadau i Barc Eirias fel y gellir ei ddefnyddio ar nosweithiau gaeafol
- Ymgorffori rhandiroedd newydd gyda chanolfannau cymunedol.
- Byrddau addysgol arfaethedig mewn mannau gwyrdd i hyrwyddo addysg bioamrywiaeth.

## Beth wnaethom ni amdano?

Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd gan y gymuned, casglwyd gwybodaeth bellach trwy ymchwil bwrdd gwaith a chasglu tystiolaeth a arweinir gan y gymuned i ddarparu gwybodaeth benodol fanylach yn ymwneud â Bae Colwyn. Roedd hyn yn cynnwys casglu data lleol ac adolygu'r ddarpariaeth o randiroedd a mannau agored.

Arweiniodd hyn at nodi set o amcanion ar gyfer y Cynllun Lle a ddefnyddiwyd wedyn i ddatblygu cyfres o bolisïau posibl ar gyfer y cynllun ac awgrymwyd camau gweithredu y gall y gymuned eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

## Colwyn Werdd

Roedd yn amlwg o'r trafodaethau bod y gymuned yn parchu'r mannau agored ym Mae Colwyn yn fawr ac eisiau eu dathlu a'u hyrwyddo lle bo modd. Mae mentrau fel Colwyn yn ei Blodau yn uchel eu parch a dywedodd 65% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg Cynllun Lle wrthym eu bod am i fannau agored gael eu diogelu fel blaenoriaeth. Dywedodd dros 60 o bobl wrthym eu bod yn "caru" y mannau agored presennol megis Gerddi'r Frenhines a Pharc Eirias.

Roedd y mater o gadw'r Bae yn lân ac yn daclus ac yn rhydd o sbwriel hefyd yn cael ei gynrychioli'n gryf yn y sylwadau ac er y teimlwyd bod y drefn glanhau strydoedd a glanhau traethau yn ddigonol, roedd awydd am fwy o finiau ac i wagio biniau sbwriel a biniau baw cŵn yn fwy rheolaidd ar draws yr holl ardal. Yn ddiddorol, gofynnodd y bobl ifanc (37 o sylwadau) am fwy o finiau a mwy o finiau baw cŵn fel blaenoriaeth. Ar hyn o bryd mae grwpiau codi sbwriel ym Mharc Eirias, Llandrillo-yn-Rhos, Colwyn Heights ac mae grŵp yn cael ei sefydlu yn Hen Golwyn ar hyn o bryd.






*Credyd y lluniau – John Etheridge*

Roedd y mannau agored allweddol a amlygwyd yn ystod ymgysylltu â’r gymuned yn cynnwys:

- Parc Eirias
- Bryn Euryn
- Nant-y-Glyn
- Bryn Cadno / Mynydd y Cŵn
- Fairy Glen
- Nant-y-Groes (Gwarchodfa Natur Nant y Groes)
- Coedwig Pwllycrochan
- Gerddi’r Frenhines
- Maes gwyrdd o gwmpas Eglwys St Paul
- Parc Min-y-Don




## Parc Eirias

Ased allweddol o fewn ardal y Cynllun Lle yw Parc Eirias. Mae'n barc cyhoeddus 20 hectar i'r dwyrain o ganol y dref ac mae ganddo ystod o gyfleusterau hamdden fel cyrtiau tenis, llyn cychod, maes chwarae i blant, canolfan chwaraeon, stadiwm a chanolfan hamdden. Mae hwn yn fan gwyrdd arbennig o bwysig o fewn ardaloedd trefol Bae Colwyn ac mae'n ased pwysig i'r bobl sy'n byw ac yn ymweld â'r Bae. Dywedodd llawer wrthym eu bod yn dymuno gweld atyniadau’n dychwelyd i’r parc i ddefnyddio’r gofod segur ac iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion cymunedol a thwristiaeth. Codwyd y potensial ar gyfer rhandiroedd / tyfu cymunedol hefyd. Roedd y plant y buom yn siarad â hwy hefyd yn cyfeirio at Barc Eirias fel ased pwysig iawn iddynt.

## Darpariaeth Chwarae


Roedd yn ddiddorol clywed gan y gymuned leol bod y traeth a'r promenâd yn cael eu defnyddio’n anffurfiol, efallai yn fwy na mannau chwarae ffurfiol, ac felly mae’n bwysig i ystyried mynd rhagddi gyda phrosiectau a chamau gweithredu fel campfeydd awyr agored.



O ran y mannau chwarae presennol – roedd awydd cryf am fannau chwarae ac offer o safon dda ynghyd â’r angen am waith cynnal a chadw rheolaidd (e.e. “Y wifren Sip yn Rhos ddim ar waith am fisoedd”). Cyfeiriwyd hefyd at y ddarpariaeth o le chwarae yng nghanol tref Bae Colwyn gyda’r syniad o droi’r sgwâr gyferbyn ag Ivy Street yn barc cymunedol i blant lleol.


Mae CBS Conwy yn cynnal archwiliad blynyddol o'r holl fannau chwarae presennol ym Mae Colwyn sy'n adnodd defnyddiol iawn: mae 15 o fannau chwarae gydag asesiadau risg llawn yn bodoli – mae’r wybodaeth yma ar gael gan y Cyngor.

Mae ardaloedd chwarae o fewn ardal y Cynllun Lle yn cynnwys:





Maes Chwarae Bryn Cadno



Maes Chwarae Fairy Glen



Parc Sglefrio Eirias




Maes Chwarae newydd ar Ystad Bryn y Môr – oddi ar Ffordd Dolwen

## Rhandiroedd

Mae'r map gyferbyn yn dangos y dyraniad presennol o randiroedd yn ardal y Cynllun Lle. Codwyd llawer o sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad am yr awydd am fwy o randiroedd ar draws Bae Colwyn ynghyd â chynlluniau fel Bwyd Bendigedig (cynllun garddio cymunedol dan arweiniad gwirfoddolwyr) sydd eisoes yn bodoli yn y Bae.

Mae syniadau a gyflwynwyd ar gyfer y Cynllun Lle yn cynnwys mynd i'r afael ag iechyd meddwl ac unigrwydd ac mae cynlluniau garddio o'r fath yn cael eu hannog. Prosiect enghreifftiol - [https://lifeatno27.com](https://lifeatno27.com)






.

## Ynni Gwyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi’r amcan i gynhyrchu 70% o’r trydan a ddefnyddir yng Nghymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2030, a chyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050.

Fe nodwyd yr amcan hwn yn lleol yn CDLI Conwy gan bolisi NTE/6 sy'n nodi'r angen i hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddadwy lle bo'n briodol.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol ym Mae Colwyn oherwydd bod fferm wynt Gwynt y Môr wedi'i lleoli 13km o'r arfordir ac yn cynnwys 160 o dyrbinau gwynt sy'n cynhyrchu digon o ynni ar gyfer oddeutu 400,000 o gartrefi bob blwyddyn.

### Ynni Cymunedol

Dylai’r Cynllun Lle ystyried prosiectau a pholisïau sy’n hyrwyddo ynni adnewyddadwy a phrosiectau addysgol ar gyfer y genhedlaeth iau gyda chysylltiadau â fferm wynt Gwynt-y-Môr sy’n arbennig o amlwg ym Mae Colwyn.

***Polisïau CDLl Perthnasol***

CFS/10 – CFS/14 (rhandiroedd a mannau agored)

DP/4 – Meini prawf datblygu

NTE/1 – NTE/10 – Yr amgylchedd naturiol, lletemau glas, ynni adnewyddadwy a System Ddraenio Drefol Gynaliadwy

Canllawiau Cynllunio Ychwanegol:

SPG - LDP4 – Ymrwymiadau Cynllunio
SPG – LDP5 – Bioamrywiaeth mewn Cynllunio

***Dogfennau Perthnasol Eraill***

- TAN16 – Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored
- TAN8 – Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy
- Safbwyntiau Gwyrdd
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gogledd-ddwyrain Cymru (Ecoleg CBSC)
- Rhaglen Lleoedd Lleol i Natur (CBSC)
- Siarad â ffrindiau Parc Eirias.
- Cynllun Cyflawni Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (CBSC)
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028 (Drafft)
- NRW – Datganiad gan Ardal y Gogledd Orllewin
- Papur Testun 12 y CDLlA – Mannau Adloniadol
- Papur Testun 47 y CDLlA: Asesiad o Isadeiledd Gwyrdd
- Papur Testun 6 y CDLlA – Yr Amgylchedd Naturiol
- Asesiad Ymyriadau Isadeiledd Gwyrdd Canol Tref CBS Conwy – Bae Colwyn (Mehefin 2022)
- Prosiectau LNP Cymru https://gis.wwbic.org.uk/apps/lnp/?data_id=dataSource_1-LNP_webtool_public_5674%3A14861&page=Public

# Hyrwyddo Colwyn Werdd - Amcanion

**Nod:** Bydd ein mannau agored a'n glannau yn lân, yn ffynnu ac yn hygyrch i bawb.

| Amcan | Hyrwyddo Colwyn Werdd - Amcanion |
|---|---|
| Amcan 1. | Gwarchod a gwella mannau agored a bioamrywiaeth bresennol. Gwyrddu ein hardal yn greadigol a chreu cyfleoedd lles newydd yn yr awyr agored i bawb eu mwynhau. |
| Amcan 2. | Dathlu a hyrwyddo mannau gwyrdd ym Mae Colwyn i bawb eu mwynhau |
| Amcan 3. | Rheoli sbwriel a llystyfiant sydd wedi gordyfu – gan gadw Bae Colwyn yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bob defnyddiwr |
| Amcan 4. | Cefnogi a chychwyn cynlluniau tyfu cymunedol a rhandiroedd mewn partneriaeth â grwpiau newydd a phresennol megis Cyfeillion Parc Eirias. |
| Amcan 5. | Hyrwyddo rhywogaethau brodorol o darddiad lleol, plannu coed, cynlluniau bioamrywiaeth, coridorau gwyrdd a gwyrddu Parth Cyhoeddus y Bae |
| Amcan 6. | Cadw'r mannau chwarae presennol a hyrwyddo mannau chwarae diogel a chynhwysol newydd i bawb eu mwynhau o fewn yr ardaloedd adeiledig a lleoliadau ar y glannau. |

## Egwyddorion Cynllun Lle - Colwyn Werdd

| Cyfeirnod Egwyddor | Egwyddor | Amcan Cysylltiedig | Lle bo'n berthnasol |
|---|---|---|---|
| GC1 | Fe gefnogir cynlluniau a fydd yn hwyluso Bae Colwyn gwyrddach, yn enwedig y rhai sy'n:<br>• Diogelu mannau agored cyhoeddus a mannau amwynder lleol fel Nant Eirias, Parc Eirias a Gerddi'r Frenhines rhag datblygiadau yn y dyfodol.<br>• Creu rhandiroedd newydd, yn enwedig rhai sy'n pontio'r cenedlaethau a chreu cysylltiadau â chynllun Ysgolion Eco (e.e., Parc Eirias).<br>• Cynnig darparu mannau agored a mannau chwarae newydd neu well<br>• Diogelu'r arfordir tra'n ychwanegu gwerth at fannau agored presennol a pheidio ag amharu'n weledol o ran deunyddiau a ddefnyddir gan ymgorffori isadeiledd gwyrdd pan yn briodol. | 1, 6 | |
| GC2. | Bydd cynigion yn cael eu cefnogi lle maent yn:<br>• Hyrwyddo cadw mannau agored cyhoeddus ac nid ydynt yn arwain at effeithiau negyddol (oni bai bod cyfiawnhad digonol wedi'i ddarparu gan gynnwys mesurau lliniaru derbyniol).<br>• Peidio ag arwain at fwy o berygl i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn y Bae a diogelu cynefinoedd â blaenoriaeth.<br>• Peidio ag arwain at golli rhandiroedd / mannau tyfu presennol.<br>• Diogelu gwrychoedd a choed. | 1,2,4,5 | |
| GC3. | Sicrhau cyllid A106 lle bo modd trwy gynigion datblygu am y defnydd bwriedig o ddarparu mannau agored / mannau chwarae newydd neu well ym Mae Colwyn. | 1,5,6 | |
| GC4. | Cefnogir cyfleoedd i hwyluso 'parciau poced' (ardaloedd bach ar gyfer mannau gwyrdd bach er mwyn llesiant, bioamrywiaeth ac ardaloedd bywyd gwyllt newydd) o fewn ardal y Cynllun Lle. | 1,5 | |

## Prosiectau / Camau Gweithredu - Colwyn Werdd

| **Cyfeirnod Gweithredu** | **Gweithrediadau / Prosiectau** | **Amcan Arweiniol** | **Erbyn Pryd B/C/H?** | **Mudiad Arweiniol / Cydweithwyr?** |
|---|---|---|---|---|
| GC/A1. | Ymchwilio i ffyrdd arloesol o::<br>• Cynnal glanhau strydoedd a thraethau<br>• Gwagio biniau / biniau cŵn<br>• Darparu biniau / biniau cŵn newydd<br>• Annog pobl i beidio â gollwng sbwriel<br>• Annog creu grwpiau gweithredol i godi sbwriel / ymgyrch ymwybyddiaeth gyda chyfranogiad posibl gan ysgolion. *(Cynlluniau eisoes yn eu lle fel enghreifftiau – Llandrillo-yn-Rhos, Parc Eirias, Bae Colwyn)* | 3 | Byr | CBS Conwy<br>Tîm y Dref<br>Y Cyngor Tref<br>Cadwch Gymru'n Daclus<br>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru – tîm ymwybyddiaeth forol |
| GC/A2. | Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael prosiectau / digwyddiadau / gwyliau i hyrwyddo a dathlu mannau gwyrdd Bae Colwyn, megis:<br>• Dathlu a hyrwyddo canmlwyddiant Parc Eirias<br>• Sioe Flodau Flynyddol<br>• Prosiectau i annog defnydd amrywiol o fannau agored cyhoeddus megis Bryn Euryn a Pharc Eirias.<br>• Gŵyl fwyd lleol | 2 | Byr | CBS Conwy<br>Y Cyngor Tref<br>Cyfeillion Parc Eirias<br>Colwyn yn ei Blodau |
| GC/A3. | Ymchwilio i gyfleoedd am gynlluniau i blannu coed, gan weithio gydag Eco Ysgolion lle bo modd, gan gynnwys ystyried hwyluso arboretum dynodedig yn ardal y Cynllun Lle. | 5 | Byr | CBS Conwy<br>Y Cyngor Tref<br>Ysgolion<br>Cyfeillion Parc Eirias |
| GC/A4. | Ymchwilio'r galw am randiroedd a mannau tyfu newydd ym Mae Colwyn. (Cysylltu â Chyfeillion Parc Eirias a rhandiroedd Tan-y-Bryn). Syniadau am brosiectau: | 4 | Byr | Tîm lles - CBS Conwy,<br>Cyngor Tref,<br>Rhandiroedd Tan-y-Bryn,<br>Cyfeillion Parc Eirias, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Sesiynau garddio cymdeithasol<br>• Ehangu Cynllun Bwyd Bendigedig | | | Bwyd Bendigedig Conwy |
| GC/A5. | Gweithio gydag aelodau Eglwys Sant Paul i sicrhau bod mannau gwyrdd yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd. | 1,2 | | Eglwys St Paul<br>Cyngor Tref |
| GC/A6. | Creu partneriaethau i hyrwyddo cerdded ym mannau agored Bae Colwyn e.e., taflen Coed Pwllycrochan a phrosiect 'llesiant mewn mannau gwyrdd' | 2 | Byr | Cyngor Tref, CBS Conwy – tîm cefn gwlad a mynediad / tîm lles, Grŵp Treftadaeth Colwyn, Cerdded Conwy |
| GC/A7. | Sicrhau bod mannau chwarae'n cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd ac edrych am gyfleoedd i ariannu mannau chwarae diogel a chynhwysol newydd gan gynnwys canol y dref – gweithio gyda CBS Conwy i gyflawni hyn drwy arian A106. | 6 | Byr | Cyngor Tref,<br>CBS Conwy |
| GC/A8. | Ymchwilio i syniadau am fannau chwarae ar y glannau a'r potensial i ymgorffori rhwystrau gwynt. | 6 | Canolig | Cyngor Tref |
| GC/A9. | Ymchwilio i unrhyw fannau problemus o lystyfiant yn gordyfu ac yn rhwystro mynediad – cysylltu â CBS Conwy am atebion a chamau gweithredu. | 3 | Byr | Cyngor Tref,<br>CBS Conwy |
| GC/A10. | Ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth y Pier am brosiectau lles awyr agored a phrosiectau addysgol / twristiaeth sy'n gysylltiedig yn arbennig â fferm wynt Gwynt-y-Môr y gellir ei gweld o'r pier a'r platfform newydd ym mhen pellaf y Promenâd yn Hen Golwyn. | 1 | Byr | Cyngor Tref,<br>Ymddiriedolaeth y Pier |
| GC/A11. | Ymchwilio i'r potensial ar gyfer goleuadau gwell ym Mharc Eirias (gan sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar drigolion a rhywogaethau a warchodir o ran llygredd golau). | 3 | | Ecolegydd CBS Conwy<br>Cyfeillion Parc Eirias |

## Thema 6

# Busnes, Manwerthu a Sgiliau



# Thema 6 – Busnes, Manwerthu a Sgiliau

## Cyflwyniad



Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar agweddau pwysig y sector busnes a manwerthu ym Mae Colwyn ynghyd â dysgu a sut y gellir gwella sgiliau'r rhai sy'n dymuno aros a gweithio yn yr ardal sydd yn nod pwysig yn y Cynllun Lle.

Mae'r gymuned yn cydnabod bod cael economi leol ffyniannus yn ysgogydd allweddol i sicrhau llwyddiant o fewn ardal y Cynllun Lle. Mae'r gymuned wedi dweud wrthym am eu dymuniad i weld cymysgedd amrywiol o gyfleoedd manwerthu a busnes. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r rhagolygon o fewn y prif graidd manwerthu yn dangos bod nifer o unedau manwerthu gwag yn cynnyddu'n sylweddol a llawer o gadwyni cenedlaethol yn symud allan o ganol y dref.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Lle bydd yn bwysig canolbwyntio ar sut y gall busnesau bach a chanolig eu maint adfer ac adeiladu'n gynaliadwy.

"Mae busnesau bychain Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cymunedau lleol, creu cyfoeth a chyflogaeth, ysgogi arloesedd a helpu Cymru i addasu ac ymateb i heriau" (Ffederasiwn Busnesau Bach www.fsb.org.uk).

Mae'r Cynllun Lle yn gyfle i ailedrych ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio ac i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae angen buddsoddi yn ardal y Bae i wella canlyniadau i'r gymuned leol ac o ran sgiliau ac addysg dylai'r Cynllun Lle ystyried dulliau o ddiogelu twf economaidd at y dyfodol gyda rhaglenni adfywio effeithiol. Mae gan yr ardal goleg addysg uwch ac mae llawer o gysylltiadau y gellid eu gwneud gyda'r ganolfan ddysgu hon a fyddai o fudd i'r gymuned leol.

Bydd yr adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfleusterau a'r asedau presennol sydd ar gael ym Mae Colwyn, gan ymgorffori barn y gymuned, cyn amlinellu set o bolisïau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd.

# Beth ddywedodd y gymuned wrthym?

Themâu Poblogaidd

- Busnesau annibynnol a bach
- Gwell mynediad i siopau
- Marchnadoedd lleol
- Cynnig manwerthu
- Cyflogaeth leol
- Llenwi unedau manwerthu gwag
- Dysgu
- Gwarchod y ciosgau ar hyd y promenâd

**Adborth allweddol o’r ymgynghoriad:**

1. Roedd 65.2% o’r rhai a ymatebodd yn cytuno dylai “Gwelliannau i'r ardaloedd siopa a'u bywiogrwydd” fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwelliant.
2. Mae'r gymuned wedi nodi bod ardal Bae Colwyn wedi colli brandiau’r stryd fawr. O ystyried hyn fe welir bod siopau annibynnol ac unedau bach newydd yn gyfle ar gyfer dyfodol Bae Colwyn. Cytunodd 46% y dylid gwarchod siopau annibynnol.
3. Dywedwyd bod y farchnad Crefftwyr yn dod â bywyd yn ôl i'r strydoedd ar y penwythnos - mae yna awydd i wneud cysylltiadau cryfach gyda'r gymuned Crefftwyr.
4. Mae marchnad dydd Mawrth ar hyn o bryd yn cael trafferth i ddenu masnachwyr. Fe welwyd bod angen rhoi blaenoriaeth i wella hyn gan y gymuned.

***Dyfyniadau gan y gymuned***

*“Angen siopau annibynnol”*

*“Dod â siopau bach annibynnol yn ôl”*

*“Yn gyffredinol, mae mynediad gwael i siopau ac adeiladau i bobl â chymhorthion anabledd.”*

*“Annog diwydiant ysgafn, busnesau i ddod i’r ardal”*

*“Llai o fusnesau mawr, mwy o fusnesau bach”*

*“Gwella Bae Colwyn, o ran siopau, llenwi unedau gwag gyda busnesau lleol”*

*“Siopau Annibynnol megis Conwy. Mwy o siopau celfyddydau, fferm, siopau dros dro mewn adeiladau mawr.*

*“Dod â’r farchnad yn ôl i Ffordd yr Orsaf fel yr oedd amser maith yn ôl. Y bobl sy’n byw yn y Bae yn colli’r stondinau bob dydd.”*

*“Mae busnesau angen cefnogaeth gyda pharcio, cefnogaeth weledol gan y Cyngor Tref, gostyngiad trethi + gwell cyfleusterau.”*

*“Cadw ciosgau’r promenâd ar agor. Maen nhw’n opsiwn cost isel i bobl na allant fforddio’r caffis yn y dref.”*

*“Y prom o Hen Golwyn i Landrillo-yn-Rhos - Cadwch y Ciosgau”*

*“Mae’n adfail ac yn ddolur llygad (Gwesty’r Imperial) ac mewn man mor amlwg, mae’n gosod y naws ar gyfer ymweliad rhywun i Fae Colwyn”.*

5. Mae'r gymuned wedi amlinellu eu dymuniad am arlwy manwerthu ehangach o fewn y brif ardal siopa. Roedd hon hefyd yn thema gref ymhlith pobl ifanc.
6. Roedd 35% yn blaenoriaethu diogelu busnes a chyflogaeth leol yn yr ardal.
7. Roedd y gymuned eisiau mynediad at gyflogaeth ystyrlon sy'n talu'n well.
8. Roedd yr unedau manwerthu gwag, yn enwedig o amgylch ardal Ffordd yr Orsaf, yn thema a godwyd dro ar ôl tro gan y gymuned. Roeddynt am i'r unedau gael eu defnyddio eto.
9. Mynegodd rhai aelodau o'r gymuned mai landlordiaid absennol oedd yn gyfrifol am yr unedau manwerthu gwag.
10. Fe amlygwyd y broblem bresennol o gael mynediad cadeiriau olwyn i fusnesau gan bobl gydag anableddau a ymatebodd.
11. Pwysleisiodd y gymuned bwysigrwydd addysg, hyfforddiant ac ychwanegu sgiliau ar gyfer pob cenhedlaeth.
12. Roedd y gymuned yn gwerthfawrogi'r ciosgau ar hyd y promenâd oherwydd eu lleoliad a'u fforddiadwyedd.
13. Roedd nifer sylweddol o'r sylwadau'n canolbwyntio ar Ffordd yr Orsaf gyda sylwadau negyddol am y ffordd yn gyffredinol.
14. Roedd y sylwadau'n canolbwyntio'n bennaf ar y cynnig manwerthu cyfyngedig sydd ar y stryd, y nifer o siopau gwag a'r angen i gefnogi busnesau bach i gymryd yr awenau dros yr eiddo.

## Syniadau gan y gymuned

### Siopau gwag:

- Llenwi unedau gyda busnesau bach a lleol
- Lleihau maint yr unedau mwyaf
- Bod yn fwy hyblyg o ran defnyddiau yng nghanol y dref (prif ardal siopa), er mwyn caniatáu mwy o hamdden a chyfyngu ar y rhwystrau cynllunio a wynebir gan fusnesau bach ar hyn o bryd

Ot

### Cefnogi busnesau annibynnol a bach:

- Trethi busnes llai
- Arian sbarduno / benthyciadau cychwyn
- Unedau manwerthu llai sy'n fwy hylaw / fforddiadwy i fusnesau bach

### Syniadau eraill:

- Pwysleisiodd y gymuned yr angen am ymglymiad gan y gymuned a busnes ac i wirfoddoli wrth adfywio
- Roedd y gymuned eisiau cefnogi busnes arloesol a allai arwain at gyflogaeth leol, yn enwedig cyflogaeth i bobl iau a gwella sgiliau gweithwyr lleol.
- Gwella cysylltiadau rhwng pobl leol, busnesau a chyfleusterau addysg yr ardal

## Beth wnaethom ni amdano?

Yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd gan y gymuned, casglwyd gwybodaeth bellach trwy ymchwil bwrdd gwaith a chasglu tystiolaeth a arweinir gan y gymuned i ddarparu gwybodaeth benodol fanylach yn ymwneud â Bae Colwyn. Roedd hyn yn cynnwys arolwg o unedau manwerthu ac ymchwil arall a gyflwynir isod.

Arweiniodd hyn at nodi set o amcanion ar gyfer y Cynllun Lle a ddefnyddiwyd wedyn i ddatblygu cyfres o bolisïau posibl ar gyfer y cynllun ac awgrymwyd camau gweithredu y gall y gymuned eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

## Busnes, Manwerthu a Sgiliau ym Mae Colwyn

Mae ardal y Cynllun Lle yn cynnwys 3 ardal siopa benodol yn Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn. Mae pob un yn wahanol ac yn denu trigolion ac ymwelwyr ar gyfer eu hystod o wasanaethau.

Mae CDLI Conwy yn nodi Bae Colwyn fel Canol Tref o fewn yr hierarchaeth manwerthu ochr yn ochr â Chonwy, Abergele, Llanrwst, Llandudno a Chyffordd Llandudno. Mae'r Hierarchaeth yn cynnwys yr ardaloedd canlynol sydd hefyd o fewn ffin y Cynllun Lle:

- Bae Colwyn (*Canol y Dref*)
- West End Bae Colwyn, Hen Golwyn, Llandrillo-yn-Rhos *(Canolfannau Ardal)*
- Bae Colwyn Uchaf (*Canolfan Leol / Pentref*)

Fe nodwyd hefyd mai Bae Colwyn yw'r mwyaf o'r 5 canol tref a ddynodwyd ar draws Conwy (Adroddiad Litchfields (2022) ac mae'n amlygu bod y diffyg ymwelwyr a buddsoddiad preifat yn y dref yn rhwystrau allweddol a'r

***Polisïau CDLI Perthnasol***

EMP/1 – EMP/4: Datblygu swyddfeydd a diwydiant

DP/8 – Prif Gynllun Bae Colwyn

CFS/2 – CFS/8: Manwerthu

CTH/1 – CTH/4: Treftadaeth ddiwylliannol ac asedau

***Dogfennau Perthnasol Eraill***

- Arolwg Masnachol Gyda'n Gilydd Tros Fae Colwyn (Gwesty'r Park Hotel i Goed Pella)
- Cynllun Datblygu Lleol – CBSC
- Cynllun Busnes BID Bae Colwyn
- Tîm Tref Bae Colwyn – mapio data
- CDLI - Papur Testun 3: - Manwerthu a Chanol y Dref
- Astudiaeth Gyntaf o Ganol Trefi Conwy (Litchfields Mehefin 2022)
- "Gweledigaeth ar gyfer Trefi Cymru" Ffederasiwn Busnesau Bach – Mawrth 2022
- "Lleoliad Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf" Strategaeth Twf Economaidd Sir Conwy 2017-2027
- "Creu Conwy – Creu Spark" – Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2021 – 2026
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2023 i 2028

gystadleuaeth gyda Llandudno yn broblem wrth geisio denu brandiau stryd fawr.

Fel llawer o ganolfannau siopa ledled Cymru – mae effeithiau Covid-19 yn amlwg ar draws canol y dref, canolfannau ardal a chanol pentrefi lleol – gyda siopau gwag yn dod yn nodwedd llawer rhy gyfarwydd. Mae’r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi cael effaith andwyol ar swyddi a busnesau a nawr yw’r amser, drwy’r Cynllun Lle a pholisïau cynllunio’r CDLl a phrosiectau / camau gweithredu, i ganolbwyntio ar adferiad hanfodol.

Amlygodd y cam ymgynghori cymunedol lawer o heriau sy’n wynebu busnes a manwerthu gan gynnwys:

*Darnio / Cysylltedd::*

- Gwella cysylltiadau teithio llesol o ganol y dref i'r Promenâd / y traeth ac i Barc Eirias (ar hyd Ffordd Abergele i Goed Pella) - roedd 22% o ymatebwyr yr Arolwg Cynllun Lle eisiau mwy o lwybrau cerdded a beicio

*Meysydd Parcio i geir a Thraffig:*

- Y posibilrwydd o wneud safle Neuadd y Farchnad yn faes parcio.
- 19% yn sôn am faterion traffig yng nghanol y dref sydd angen eu gwella.

*Diogelwch*

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amlwg yng nghanol y dref yn enwedig gyda'r nos.

*Landlordiaid Absennol*

- Er bod CBS Conwy yn ymwybodol o fater hanesyddol landlordiaid absennol, nid yw hyn yn fater amlwg ar hyn o bryd gyda dulliau yn eu lle i ddwyn landlordiaid i gyfrif. (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Mawrth 2023).

*Y Farchnad:*

- Y dirywiad yn y nifer / amrywiaeth o stondinau marchnad.


*Cau siopau a gwasanaethau:*

- Cau siopau annibynnol bach a chadwyni cenedlaethol.
- Cau cyfleusterau megis toiledau cyhoeddus oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol (e.e. Maes Parcio Ivy Street).
- Dymuniad i gadw'r ciosgau ar hyd y Promenâd.
- Roedd 65% o ymatebwyr yr Arolwg Cynllun Lle eisiau gwelliannau i'r ardaloedd siopa a gwella eu bywiogrwydd.

*Adeiladau gwag:*

- Adfywio ac adnewyddu safleoedd segur allweddol megis Gwesty'r Imperial (rhestredig Gradd II).
- Rhos Point – adeiladau gwag mewn lleoliad gwych ar lan y môr. Roedd 67% o ymatebwyr yr arolwg Cynllun Lle ar-lein eisiau datrys problem siopau gwag.

Ym mis Mawrth 2023, fel rhan o'r sesiynau casglu tystiolaeth, fe wnaed arolwg o'r siopau presennol yn ardal Ffordd yr Orsaf, Ffordd Penrhyn a Ffordd Abergele (gweler y map isod) gan Grŵp Llywio'r Cynllun Lle. Mae'r map hwn yn nodi'r defnydd cynllunio presennol o unedau gyda'r mwyafrif yn berthnasol i'r categori defnydd siop A1. Mae gan A3, Bwyd a Diod, bresenoldeb cryf ac fe ddangosir yr unedau sy'n wag ar hyn o bryd hefyd.



Mae data a gafwyd gan GBS Conwy yn nodi bod gan Fae Colwyn oddeutu 260 o unedau manwerthu a gwasanaeth gydag oddeutu 35 wedi'u nodi i fod yn unedau gwag (cyfradd gwacter o tua 13%). Mae gan Hen Golwyn oddeutu 72 o unedau gydag 11 ohonynt yn wag (graddfa o oddeutu 15%) ac mae gan Landrillo-yn-Rhos oddeutu 90 o unedau gydag 1 ohonynt yn unig yn wag. (CBS Conwy 2023). Mae'n ddiddorol nodi mai ychydig iawn o leoedd gwag sydd gan Landrillo-yn-Rhos sy'n dangos ei phoblogrwydd fel canolfan ardal boblogaidd.

Mae archwiliad agosach o strydoedd unigol i'w weld isod (CBSC Mawrth 2023):

| Lleoliad | Nifer yn wag | Nodiadau |
|---|---|---|
| Ffordd Conwy | 1 | |
| Ffordd Penrhyn | 4 | |
| Rhodfa'r Tywysogion | 4 | Yn cynnwys Gwesty'r Imperial |
| Ffordd yr Orsaf | 6 | 2 ohonynt yn unedau manwerrthu mawr |
| Ffordd Abergele | 6 | |
| Ffordd Greenfield | 5 | |
| Ffordd Sea View | 2 | |
| Canolfan Bay View | 6 | (Yn cynnwys Brighthouse) |

## Canolfan Leol Llandrillo-yn-Rhos


Mae hon yn ganolfan fywiog gydag ystod o fusnesau annibynnol. Dyma'r ganolfan leol ddynodedig fwyaf o ran nifer yr unedau manwerthu a gwasanaethau (Litchfields Mehefin 2022). Mae'n ganolfan gryno gyda chysylltiadau ardderchog â glan y môr ac mae'n denu ystod o ddefnyddwyr lleol a thwristiaid

## Canolfan Leol Hen Golwyn

Mae gan y ganolfan hon ystod o adnoddau manwerthu a gwasanaethau a dyma'r ail ganolfan leol ddynodedig fwyaf ar draws y Sir (Astudiaeth Litchfields Mehefin 2022). Mae'n ganolfan linellol gyda chysylltiadau gwael â glan y môr ac yn ei hanfod mae'n ganolfan i drigolion gyda llai o ymwelwyr yn ei defnyddio.

## Adfywio Bae Colwyn a Ffordd yr Orsaf

Fe grëwyd Ffordd yr Orsaf ym 1887 fel prif stryd siopa’r dref a bu’n ganolbwynt canolfan siopa boblogaidd yng Ngogledd Cymru hyd at y 1960au (ffynhonnell: www.colwynbayheritage.org.uk).




Erys nodweddion gwreiddiol llawer o'r adeiladau, yn enwedig ar y lloriau uwch. Yn nodweddiadol o lawer o adeiladau masnachol Bae Colwyn oedd canopïau haearn bwrw a gwydrog, gyda mynedfeydd rhwng ffenestri siopau crwm - yn anffodus, ychydig sydd ar ôl heddiw (ffynhonnell: www.colwynbayheritage.org.uk).

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r gymuned, daeth Heol yr Orsaf a'r cyffiniau i'r amlwg yn y nifer o ymatebion a gafwyd. Roedd barn gref i gadw'r stryd i gerddwyr yn unig tra bod eraill am weld y stryd yn cael ei hailagor i gerbydau er mwyn dod ag ymdeimlad o weithgaredd a mynediad rhwydd.

Roedd teimladau cryf mai Ffordd yr Orsaf yw’r stryd gyntaf a welwch wrth ymweld â’r ardal o’r orsaf ac mae’n edrych yn ddi-gariad ac wedi mynd â’i ben iddo ar hyn o bryd. Mae'r map yn dangos nifer yr adeiladau rhestredig ar Ffordd yr Orsaf ynghyd â ffin yr ardal gadwraeth. Fe wnaed nifer o astudiaethau o ganol tref Bae Colwyn dros y blynyddoedd – gyda’r nod o ddatblygu prosiect i wella canol y dref. Barn bresennol CBS Conwy yw y bydd y gwaith hwn yn ffurfio dull graddol a bydd gwaith dylunio'n cael ei gomisiynu gan CBS Conwy yn ystod 2023. (Mae cyllid wedi'i glustnodi o


ddyraniad Trawsnewid Trefi). Yn ogystal, mae Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi bod yn edrych ar welliannau i gwrt blaen yr Orsaf ac mae prosiect i ad-drefnu'r ardal yn mynd rhagddo. Mae *Astudiaeth Canol Trefi yn Gyntaf* (Litchfields Mehefin 2022) wedi edrych ar effeithiau COVID, gofod swyddfeydd, adeiladau adfeiliedig a'r potensial i ddatblygu yn yr ardal ac mae cynlluniau gweithredu ar gyfer unedau gwag yn cael eu rhoi ar waith gan CBS Conwy. At hyn, mae cyngor Litchfields yn cael ei roi ar waith yn ardal y CDLl.

*Syniadau Cynllun Lle a chyfleoedd ar gyfer Ffordd yr Orsaf – rhifau fel y nodir ar y map isod:*

1. Y posibilrwydd o ailagor y llwybr i gerddwyr o'r promenâd i'r orsaf / Ffordd yr Orsaf.
2. Defnyddio safle tir llwyd ar gyfer maes parcio ac ail-lunio cwrt blaen yr orsaf.
3. Y Pier – gwella cysylltiadau o'r orsaf a Ffordd yr Orsaf.
4. Cyfle i adnewyddu Gwesty'r Imperial.
5. Cyfleoedd yn Ffordd yr Orsaf:

    - Dylai Ffordd yr Orsaf fod yn fan hyblyg, gyda llai o ffocws ar fanwerthu (defnydd cymysg). Denu busnesau bach annibynnol arbenigol – creu hunaniaeth unigryw / ymgyrch farchnata
    - Datrys problemau sy'n ymwneud â pharcio ar Ffordd yr Orsaf lle mae defnyddwyr yn gweld bod y system bresennol yn ddryslyd ac ansicrwydd ynghylch bolardiau ac amserau defnydd
    - Gofynion parcio i bobl gydag anableddau a ffioedd parcio fforddiadwy
    - Creu man cymdeithasol ar gyfer digwyddiadau a marchnadoedd a chwrt bwyd / seddi
    - Cynnig manwerthu cryf gyda phwyslais ar siopau annibynnol
    - Ffocws ar letygarwch - cryfhau economi gyda'r nos / denu teuluoedd ifanc / Caffi Diwylliant
    - Siopau Dros Dro – cymhellion
    - Cyfleusterau i ieuenctid
    - Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
    - Adfer adeiladau i gadw a gwella ansawdd pensaernïol presennol Ffordd yr Orsaf


6. Y farchnad – hyrwyddo ac ehangu stondinau – i Faes Parcio Ivy Street – cyfleoedd i ail-gyflunio a gwneud gwell defnydd o'r gofod.
7. Gwell cysylltiadau i gerddwyr o'r dref i Barc Eirias.


A55
A55
A55
Promenade
Penrhyn Road
Station Road
Ivy Street
Sea View Road
Bay View Shopping
Abergele Road
1
2
3
4
5
6
7
Cyfleoedd
Llwybrau presennol i gerddwyr
Llwybrau posibl i gerddwyr
Ffyrdd
Adeiladau
Mannau Gwyrdd

## Cyfleoedd Cyllid

- Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer canol trefi gwyrddach
- Cyllid Codi'r Gwastad
- Trawsnewid Trefi
- Cronfa Ffyniant Gyffredin
- Cyfleoedd Timau Tref (yn arwain ar Strategaeth Ddiwylliant ar gyfer Bae Colwyn)
- Cyllid y Loteri
- Cyllid Creu Cynllun Lle Llywodraeth Cymru

## Cyfleoedd i Ddysgu




Yn ystod y cyfnod ymgysylltu Pwysleisiodd y gymuned bwysigrwydd addysg, hyfforddiant ac ychwanegu sgiliau ar gyfer pob cenhedlaeth.

Dylai'r Cynllun Lle geisio annog cyfleoedd cyflogaeth neu brentisiaeth i bobl ifanc ym Mae Colwyn lle bo hynny'n bosibl.

Mae 7 ysgol gynradd (un ohonynt yn gyfrwng Cymraeg), 2 ysgol Uwchradd, un ysgol breifat ac un Coleg Addysg Uwch o fewn ardal y Cynllun Lle. Mae llawer o blant sy'n manteisio ar addysg ym Mae Colwyn yn teithio o ardaloedd cyfagos ac ymhellach i ffwrdd. Mae'n bwysig cofleidio'r pwyslais cryf ar addysg a dysgu yn yr ardal a cheisio dal gafael ar dalent ifanc lle bynnag y bo modd.

Mae Coleg Llandrillo wedi'i leoli o fewn ardal y Cynllun Lle ac mae ganddo gysylltiadau agos â Phrifysgol Bangor. Mae'r campws addysg bellach yn Llandrillo yn Rhos yn darparu ystod o gyrsiau gradd i fyfyrwyr lleol (ffynhonnell: *Perfectly Placed for Business and Growth" Conwy County's Economic Growth Strategy 2017-2027)*. Mae cyfle i wella cysylltiadau rhwng Coleg Llandrillo a busnesau yn yr ardal a fyddai o fudd i'r economi leol, twf ac arloesedd yn yr ardal.

# Busnes, Manwerthu a Sgiliau - Amcanion

**NOD:** Bydd ein strydoedd mawr yn brysur, yn cefnogi busnesau lleol ac economi leol gref. Bydd ein trigolion yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd a manteisio ar swyddi o ansawdd uchel.

| **Amcan** | **Busnes, Manwerthu a Sgiliau - Amcanion.** |
|---|---|
| Amcan 1. | Gweithio gyda phartneriaid i ymchwilio dulliau arloesol o ddarparu unedau llai a haws eu rheoli a fyddai'n addas ar gyfer siopau annibynnol, busnesau bach newydd, hwb busnes a gofod i swyddfeydd. |
| Amcan 2. | Hyrwyddo blaenau siopau gweithredol ac agored a rhagor o ymwelwyr |
| Amcan 3. | Hyrwyddo addysg, hyfforddiant, ychwanegu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i bawb |
| Amcan 4. | Hybu nifer y masnachwyr marchnad, y mathau o farchnadoedd, digwyddiadau a gwyliau a gynigir ym Mae Colwyn |
| Amcan 5. | Gwella darpariaeth manwerthu a gwasanaethau yng nghanol y dref |
| Amcan 6. | Rhoi cyfleoedd i fusnesau gymryd yr awenau dros eiddo segur yn y Bae. |
| Amcan 7. | Hwyluso a hyrwyddo Diwylliant Caffi o fewn canol y dref |
| Amcan 8. | Gweithio gyda phartneriaid am ddyfodol cynaliadwy tymor hir ar gyfer Ffordd yr Orsaf yn cynnwys ei statws presennol o fod ar gyfer cerddwyr yn unig |
| Amcan 9. | Cefnogi'r Fforwm Busnes i greu llais cryf a rhagweithiol dros fusnesau ar draws Bae Colwyn |

## Egwyddorion y Cynllun Lle - Busnes, Manwerthu a Sgiliau

| Cyfeirnod Egwyddor | Egwyddor | Amcan Cysylltiedig | Ble? os yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| BRL1. | Bydd cynigion datblygu ar gyfer unedau gwag yn cael eu hystyried yn ffafriol, yn enwedig lle mae hyn yn cynhyrchu unedau busnes bach / busnesau newydd, hwb busnes / cyfathrebu, gofod swyddfa neu well darpariaeth o wasanaethau. Gall hyn gynnwys isrannu a chymysgedd o ddefnyddiau mewn eiddo mwy yn y craidd manwerthu, gan gynnwys lloriau uwch. Mae'r Cynllun Lle yn cefnogi cymysgedd eang o gynigion (gan gynnwys hamdden a chreadigol) ar yr amod nad ydynt yn cael effaith andwyol ar amwynder preswyl. | 1,2,6 | |
| BRL2. | Rhoddir cefnogaeth i gynigion sy'n hyrwyddo blaenau siopau gweithredol ac agored yng nghanol y dref a defnyddiau dros dro a fydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a bywiogrwydd.<br>Syniadau am brosiectau:<br>• Mannau bwyta yn yr awyr agored<br>• Siopau dros dro a mannau masnachu prawf<br>• Allfeydd bwyd dros dro mewn strwythurau dros dro | 2,5,7 | |
| BRL3. | Bydd ceisiadau datblygu a fydd yn creu cyfleoedd am gyflogaeth neu brentisiaeth ar gyfer grwpiau o ystod o oedrannau ym Mae Colwyn yn cael eu hystyried yn ffafriol. | 3 | |
| BRL4. | Bydd cynigion i ehangu a hyrwyddo'r farchnad grefftwyr bresennol yn cael eu hystyried yn ffafriol gyda dyhead yn y dyfodol am Ardal Artisan ar Ffordd Abergele. | 4 | |
| BRL5. | Bydd ceisiadau i ddefnyddio mannau ar y stryd ar gyfer diwylliant caffis, gweithgareddau, chwarae, digwyddiadau a seddi awyr agored yn cael eu cefnogi i greu mannau hybrid hyblyg a gwelliannau i'r strydlun. | 7 | |

## Prosiectau / Camau Gweithredu - Busnes, Manwerthu a Sgiliau

| Cyfeirnod Gweithredu | Gweithrediadau / Prosiectau | Amcan Cysylltiedig | Erbyn Pryd (B/C/H) | Corff Arweiniol / Cydweithwyr?? |
|---|---|---|---|---|
| BRL/A1 | Gweithio gyda'r Fforwm Busnes, Busnes Cymru a Ffederasiwn Busnesau Bach i ymchwilio i ddulliau o ddarparu gwell sgiliau technegol a chymorth i fusnesau ar draws ardal y Cynllun. Syniadau am brosiectau:<br>• Cyfleoedd i rwydweithio / siaradwyr gwadd<br>• Grŵp gweithredu ar eiddo gwag<br>• Cefnogi busnesau newydd / trethi busnes<br>• Cefnogaeth tasg weinyddol<br>• Canllawiau gofynion trwyddedu<br>• Prydlesi hyblyg i fusnesau newydd<br>• Wi-Fi fforddiadwy i fusnesau / rhwydwaith Wi-Fi i'r dref | 3 | Byr | Cyngor Tref<br>**Fforwm Busnes**<br>Busnes Cymru<br>Ffederasiynau ar gyfer Busnesau Bach<br>Colegau<br>Asiantau masnachol |
| BRL/A2 | Ymgymryd â gwaith arolwg o loriau uchaf unedau canol tref i ganfod y nifer sy'n wag ar hyn o bryd a gweithio gyda landlordiaid / perchnogion i hyrwyddo defnyddiau arloesol. | 1,5,6 | Byr | **CBS Conwy**<br>Landlordiaid<br>Fforwm Busnes<br>Asiantau masnachol |
| BRL/A3 | Gweithio gyda CBS Conwy, landlordiaid ac Asiantau i nodi defnyddiau / addasiadau arloesol ar gyfer adeiladau e.e. Siopau dros dro. | 5,6 | Byr | CBS Conwy<br>**Cyngor Tref**<br>Fforwm Busnes |
| BRL/A4 | Gweithio gyda'r Fforwm Busnes i ymchwilio i'r cyfle am Ardal Artisan ar Ffordd Abergele neu leoliad addas (e.e. Ffordd yr Orsaf / Ffordd Sea View). Archwilio hefyd y cyfle i gefnogi llwyddiant amrywiaeth o farchnadoedd megis marchnadoedd ffermwyr, bwyd stryd, marchnadoedd rhad a marchnadoedd celf a diwylliant lleol. | 4 | Byr | CBS Conwy<br>Cyngor Tref<br>Fforwm Busnes<br>Masnachwyr y farchnad<br>Y sector creadigol<br>Tîm y Dref |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| BRL/A5 | Ymchwilio'r cyfleoedd i sefydlu cynllun hyrwyddiadau lleol / teyrngarwch lleol gyda siopau | 5 | Canolig - Hir | Cyngor Tref<br>CBSC<br>Fforwm Busnes |
| BRL/A6 | Ymchwilio i gyfleoedd i wneud cais am gyllid ar gyfer gwelliannau i flaenau siop ac i adnewyddu adeiladau. | 2 | Byr - Canolig | **CBS Conwy** |
| BRL/A7 | Gweithio gyda'r Fforwm Busnes i ymchwilio cyfleoedd cyllid i benodi Llysgennad Busnes / Rheolwr Tref i gefnogi llwyddiant busnesau lleol a hyrwyddo rhannu syniadau / cyfathrebu. | 5 | Byr - Canolig | **Cyngor Tref**<br>Fforwm Busnes<br>Tîm y Dref |
| BRL/A8 | Ymchwilio i gyfleoedd cadw a chyflogaeth i bawb.<br>Mae syniadau yn cynnwys:<br>• datblygu sgiliau yn y diwydiannau creadigol<br>• cyrsiau sgiliau bywyd<br>• denu pobl ifanc yn ôl i'r ardal<br>• meithrin cysylltiadau â'r coleg lleol<br>• cyfeirio gyrfaoedd, prentisiaethau, a chyfleoedd yn lleol ar gyfer newidiadau gyrfa.<br>• Hyrwyddo a denu swyddi o safon | 3 | Canolig | Coleg lleol<br>CBS Conwy<br>Cyngor Tref<br>Fforwm Busnes |
| BRL/A9 | Y Cyngor Tref i hyrwyddo cadw a datblygu'r ciosgau presennol ar y promenâd yn ogystal â chefnogi cyfleoedd i agor busnesau newydd ar hyd y promenâd | 1,2 | Hir | Cyngor Tref<br>Fforwm Busnes<br>**CBS Conwy** |
| BRL/A10 | Y Cyngor Tref i gysylltu â ChBSC i drafod opsiynau ar gyfer Ffordd yr Orsaf gan ystyried yr ymgysylltu a wnaed gyda'r gymuned a sefydlu tîm prosiect. | 8 | Hir | **Cyngor Tref**<br>Fforwm Busnes<br>CBS Conwy |
| BRL/A11 | Canolbwyntio ar gynnig manwerthu amrywiol a busnesau annibynnol unigryw – i ddarparu arlwy manwerthu sy'n wahanol i drefi cyfagos | | Canolig | Cyngor Tref<br>Fforwm Busnes<br>**CBS Conwy** |

# 5. Cyflawni'r Cynllun Lle

## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Lle hwn yn dwyn ynghyd fisoedd lawer o waith gan Grŵp Llywio'r Cynllun Lle a phartneriaid yn dilyn cyfnod o ymgysylltu cymunedol â rhanddeiliaid a'r gymuned leol ar draws Bae Colwyn. Mae'r Cynllun yn amlinellu nifer o awgrymiadau am egwyddorion, prosiectau a chamau gweithredu er mwyn gweithredu llawer o'r dymuniadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Os bydd yn llwyddiannus, bydd y Cynllun Lle yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i'r gymuned leol a'r rhanddeiliaid sy'n bartneriaid yn y prosiect. Fodd bynnag, rhaid ystyried sut y bydd egwyddorion a chamau gweithredu'r Cynllun Lle yn cael eu datblygu.

## Rhoi'r Cynllun Ar Waith

Mae Cyngor Tref Bae Colwyn a Grŵp Llywio'r Cynllun Lle wedi paratoi'r Cynllun Lle mewn arddull sy'n dynodi'r Mudiadau Arweiniol a Chydweithwyr. Er mwyn i'r Cynllun fod yn llwyddiannus mae'n rhaid gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae Cyngor Tref Bae Colwyn mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn edrych am gyfleoedd i gaffael cyllid tuag at adnoddau ar gyfer camau nesaf y Cynllun Lle *"Cynllun Lle Bae Colwyn – Rhoi'r Cynllun Ar Waith"* a'r gobaith yw y bydd y cyllid yn cael ei ddyfarnu er mwyn hwyluso gweithrediad effeithiol y Cynllun.

Nod y prosiect hwn yw adeiladu ar y cyfleoedd a nodwyd ac adeiladu gweledigaeth gydweithredol ar gyfer yr holl randdeiliaid, gan weithio mewn partneriaeth, gyda'r nod cyffredin o adfywio Bae Colwyn. Yr amcanion a fwriedir yw:

***Cam 1 (Hydref 2023 - Mawrth 2024)***

Amcan 1: Ymgorffori a chodi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r Cynllun Lle.

Amcan 2: Cychwyn a chefnogi 6 grŵp gweithredu cymunedol a rhanddeiliaid gyda themau, i ddatblygu a chyflawni'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y cynllun.

Yn y pen draw, mater i'r grwpiau gweithredu unigol fyddai ystyried blaenoriaethau a chasglu rhagor o wybodaeth sydd ei hangen i lunio cynigion pendant y gellid eu datblygu wedyn drwy astudiaethau dichonoldeb a / neu gynigion prosiect fel rhan o gam 2 (nid yw hyn yn atal sefydlu digwyddiadau a gweithgareddau fel rhan o gam 1).

Bydd Cam 1 yn sicrhau bod y cymorth cywir yn ei le i'r camau gweithredu hyn gael eu cychwyn a'u cefnogi gan gynrychiolwyr y cymunedau a'u helpu i ddeall ymhellach y materion, y gofynion a'r cyfrifoldebau ar gyfer datblygu prosiectau penodol Cam 2. Rhan o Gam 1 fydd ymchwilio i ba adnoddau sylfaenol sydd eu hangen fel y gall Cyngor Tref Bae Colwyn sefydlu strwythur i gefnogi'r Cynllun Lle. Bydd Cam 1 yn cloi gydag adroddiad am y prosiect a fydd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y ddau amcan, yn cynnwys astudiaethau pellach a wnaed ac yn darparu argymhellion manwl ar gyfer Cam 2.

***Cam 2 (Ebrill 2024 - Mawrth 2025)***

- Paratoi astudiaethau dichonoldeb ar y prif flaenoriaethau fel y penderfynwyd ei bod yn angenrheidiol yng ngham 1.
- Paratoi cynigion am gyllid cyfalaf ac adnoddau i gyflawni mentrau cadarn a nodwyd yn y cynllun a'r gwaith blaenorol.

Fe ragwelir y bydd angen cyllid pellach ar gyfer cam 2 yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith yng ngham 1. Mae'n debygol y bydd cyllid cam 2 yn cynnwys cymorth uniongyrchol ar gyfer datblygu ceisiadau am gyllid a, lle bo'n briodol, comisiynu astudiaethau dichonoldeb, lluniau cysyniadol a gwaith technegol cysylltiedig i gefnogi ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau penodol. Mae'n debygol y bydd cam 2 yn arwain at gynigion am gyllid cyfalaf a refeniw.

Y canlyniadau a fwriedir ar gyfer Cam 1 a 2 fydd:

- Gwell ymglymiad a grymuso o'r cymunedau, lle mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar anghenion pobl, a lle bydd cymunedau yn cael eu cynnwys wrth ddylunio a darparu prosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd o fudd iddynt.
- Sefydlu a chryfhau rhwydweithiau cymunedol effeithiol gan ganolbwyntio ar ar gyflawni gwelliant.
- Cryfhau ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol yn Ardal Bae Colwyn.
- Cryfhau bywiogrwydd tref Bae Colwyn fel canolbwynt ar gyfer rhyngweithio cymunedol.

# 6. Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018 - 2033

Mae CBS Conwy yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) am y cyfnod 2018 - 2033. Bydd y cynllun hwn yn dyrannu tir sydd i'w ddatblygu a thir sydd i'w warchod ac yn cynnwys polisïau a roddir sail i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae'r Cynllun Lle hwn wedi cynnig dull ar gyfer cyfranogiad a gwybodaeth leol a chasglu tystiolaeth i lunio a llywio datblygiad polisiau i Fae Colwyn. Fe welir isod yr eitemau yr hoffai'r gymuned iddynt gael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLIN:

**Manwerthu a Chanol y Dref.** Ystyried lleihau maint yr ardal manwerthu, hyrwyddo blaenau siopau gweithredol ac agored, adfywio Ffordd yr Orsaf a chyflwyno Ardal i Grefftwyr ar Ffordd Abergele. Annog ailddefnyddio adeiladau gwag a lloriau uwchben yng nghanol y trefi.

**Tai.** Hwyluso cymysgedd mwy o ddeiliadaethau a thai fforddiadwy. Annog datblygwyr i weithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned i gynhyrchu briffiau dylunio. Ystyried annog defnyddio'r safleoedd mewnlenwi a nodir yn y cynllun hwn a chynlluniau am dai a arweinir gan y gymuned.

**Treftadaeth ac asedau diwylliannol.** Gwarchod adeiladau treftadaeth pwysig, nodweddion pensaernïol ac asedau diwylliannol allweddol megis Theatr Colwyn, Theatr Bypedau Harlequin a'r Pier.

**Twristiaeth.** Cefnogi datblygiadau twristiaeth newydd yn ardal y cynllun.

**Yr Iaith Gymraeg.** Ystyried polisïau sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

**Defnyddio mannau cymysg.** Ystyried polisïau i gefnogi mannau amlbwrpas bywiog a chynaliadwy a mannau defnydd cymysg.

**Cyfleusterau cymunedol.** Ystyried polisïau sy'n annog mannau chwarae a chyfleusterau hygyrch i bobl ifanc. Cefnogi cyfleusterau ar gyfer iechyd a lles gan gynnwys canolfan gymunedol yn Llandrillo yn Rhos.

**Teithio Llesol.** Cefnogi gwell cysylltiadau a mentrau teithio llesol megis storio beiciau, mannau gorffwys pob tywydd, llwybrau beicio ac  ati.

**Cysylltedd.** Ystyried polisïau sy'n hwyluso gwell cysylltedd rhwng canol y dref, glan y môr, Parc Eirias a'r orsaf reilffordd a rhoi mwy o bwyslais ar wella rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig y rhai sy'n rhedeg o'r Gogledd i'r De. Ystyried 'parth cyrraedd' y tu allan i'r orsaf reilffordd.

**Mannau Agored.** Ystyried nodi Nant Eirias, Parc Eirias, Gerddi'r Frenhines a Bryn Euryn fel mannau agored i'w diogelu ac annog creu mannau agored newydd a 'pharciau poced'.

**Rhandiroedd.** Ystyried polisïau sy'n cefnogi cadw a thwf darparu rhandiroedd.

**Bioamrywiaeth.** Gwrthsefyll datblygiadau sy'n cael effaith andwyol ar fywyd gwyllt, bioamrywiaeth a gwrychoedd.

**Cyflogaeth a Sgiliau.** Ystyried cyfleoedd i gefnogi cyflogaeth a datblygu sgiliau yn well.

# 7. Adran 106 – Syniadau am Brosiectau

Isod fe welir rhestr o syniadau am brosiectau y gallai'r Cyngor Tref eu cynnig, yn ystod y cam ymgynghori ar geisiadau cynllunio, i'w hystyried am gyllid A106 (mae'r prosiectau hyn yn cysylltu â phrosiectau / camau gweithredu o bob pennod).

| Pennod - Thema: | Syniadau am brosiectau gyda chyllid A106 | Rhif y tudalen(nau) |
|---|---|---|
| **Tai a Datblygu yn y Dyfodol** | Cynlluniau tai a arweinir gan y gymuned | 39 |
| | Darpariaeth chwarae newydd | 60-64, 83-85, 89-91 |
| **Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth** | Ailddefnyddio Platfform 3 Gorsaf y Rheilffordd | 51, 69, 71, 76 |
| | Llwybrau treftadaeth / llwybrau newydd | 52 |
| | Amgueddfa | 52 |
| | Bandstand dan do | 52 |
| | Llwybrau teithio llesol – llwybrau beicio a cherdded | 27, 39, 74-76 |
| | Gwell arwyddion | 51, 74 - 76 |
| | Arwyddion Croeso i Golwyn | |
| | Ail-ddefnyddio unedau mawr gwag | 40, 50-52, 62 |
| | Gwelliannau i'r pier – byrddau dehongli / seddau | 52, 76 |
| | Lido newydd – Llandrillo-yn-Rhos | 51 |
| **Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles** | Goleuadau newydd a theledu cylch cyfyng (TCC) | 63 |
| | Prosiectau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol / gwella diogelwch | |
| | Darparu toiledau 24/7 | |
| | Bylchau yn y ddarpariaeth – cyfleusterau chwaraeon / gwasanaethau iechyd / campfa a ffitrwydd i bobl ifanc / campfeydd awyr agored / darpariaeth ar gyfer grwpiau plant bach / cae Astroturf 4G / parc sglefrio / man chwarae cymunedol yng nghanol tref Colwyn e.e. Ivy Street | 64 |
| **Symud o Gwmpas** | Darparu arwyddion newydd (arwyddion twristiaeth ac arwyddion ar gyfer gwell cysylltedd) | 51, 74 - 76 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cadeiriau olwyn sy'n hwylus i'r traeth | 76 |
| | Mannau croesi newydd – Ffordd Abergele / Ffordd Conwy a'r promenâd ger y danffordd | |
| | Mannau gorffwys cysgodol newydd – ar y promenâd ac arosfannau bysiau allweddol ar Ffordd Ebberston / Heaton Place / Gerddi Diana | |

| | | |
|---|---|---|
| **Colwyn Werdd** | Darparu biniau newydd i sbwriel a baw cŵn | 90-91 |
| | Cynlluniau plannu coed | 90 |
| | Darparu rhandiroedd / mannau tyfu newydd | 90-9 1 |
| | Cynnal a chadw'r mannau chwarae presennol | 91, 90 |
| | Darparu mannau chwarae newydd (mannau diogel a chynhwysol) | 91 |
| | Darparu mannau chwarae / rhwystrau gwynt ar lan y môr– y traeth a'r promenâd | |
| | Prosiectau addysgol / twristiaeth ar y pier (cysylltiadau â fferm wynt Gwynt y Môr) | |
| | Gwell goleuadau – Parc Eirias | |
| | Darparu mannau chwarae / lles newydd | |

| | | |
|---|---|---|
| **Busnes, Manwerthu a Sgiliau** | Darparu marchnad | 106-107 |
| | Cynllun gwella i flaenau siopau | |
| | Ciosgau newydd ar hyd y promenâd | 107 |
| | Gwelliannau i Ffordd yr Orsaf – arwyddion, gwaith adfywio, gwella'r ddarpariaeth parcio, parcio i'r rhai gydag anableddau, mannau cymdeithasol ar gyfer y farchnad, cwrt bwyd, seddau | 50, 62-63, 106 |
| | Gwell cysylltiadau i gerddwyr o ganol y dref i Barc Eirias | 50, 52, 90-91 |
| | Cyswllt newydd i gerddwyr o'r traeth i Ffordd yr Orsaf (ailagor y llwybr presennol) | 75-76 |

# 8. Cyfeiriadau ac Atodiadau

## Cyfeiriadau / Atodiadau fesul testun

Mae gwybodaeth ychwanegol am gynhyrchu'r Cynllun Lle hwn ar gael ar www.colwynplaceplan.com

| | |
|---|---|
| ***Data ar gyfer Ardal Bae Colwyn*** | |
| **Canlyniadau Cyfrifiad 2021** | https://census.gov.uk/census-2021-results |
| **Data AirBNB** | Ciplun o restrau Bae Colwyn a gyrchwyd ar 14eg Chwefror 2023. Rhestrau cyfredol: https://shorturl.at/bnEX3 |
| **Tai Gwag** | Data Adeiladau Gwag Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – darparwyd gan eu Swyddog Tai Gwag (Mawrth 2023) |
| **Perchnogaeth Tir** | Data'r Gofrestrfa Tir: https://use-land-property-data.service.gov.uk/ |
| **Gwerthoedd Eiddo** | Data rhestru Rightmove a gyrchwyd ym mis Mawrth 2023. Rhestrau cyfredol: https://shorturl.at/gjpCK |
| ***Iechyd a Lles*** | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fudiadau cyhoeddus yng Nghymru ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau ac ymdrin â materion allweddol megis tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd: https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/ |
| **Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028** | Cynllun ar gyfer ble y gall Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych gefnogi cyflawni nodau llesiant: https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/well-being-plan/ |
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru** | *Gweithio gyda'n gilydd i gael Cymru Iachach – Ein Strategaeth Hirdymor 2023 – 2035, Iechyd Cyhoeddus Cymru: https://phw.nhs.wales/about-us/working-together-for-a-healthier-wales/* |
| ***Economi, Adfywio a Thrafnidiaeth*** | |
| **Cronfa Ffyniant Gyffredin** | Manylion am gyllid codi'r gwastad llywodraeth y DU a all ddarparu cyllid a buddsoddiad ar gyfer prosiectau ledled y DU: https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/uk-shared-prosperity- cronfa-prosbectws |

| | |
|---|---|
| **Adeiladu Lleoedd Gwell** | Yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio i wella lleoedd yng Nghymru: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/building-better-places-the-planning-system-delivering-resilient-and-brighter-futures.pdf |
| **Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017-2027** | Yn nodi'r weledigaeth a'r strategaeth neu dwf economaidd yng Nghonwy ar gyfer 2017-2027 – Cygnor Bwrdeistref Conwy 2017: https://conwybusinesscentre.com/wp-content/uploads/1c76a1_05524f66b9d240c6b10c881837adef9e.pdf |
| **Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy 2019 - 2029** | Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynllun i gefnogi twristiaeth yng Nghonwy, ac i osod Conwy ar lwyfan y byd fel cyrchfan i dwristiaid - Cyngor Bwrdeistref Conwy 2019: https://www.conwy.gov.uk/en/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Destination-Conwy/documents/Destination-Conwy-Management-Plan-2019-2029.pdf |
| **Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy 2021 - 2026** | Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r strategaeth i ymgorffori'r celfyddydau a diwylliant ym mywyd cymunedol ar draws Conwy – Cyngor Bwrdeistref Conwy 2021: https://conwyculture.com/content/files/Creu-Conwy-%E2%80%93-Cultural-Strategy-for-Conwy-County-Borough-2021-2026_2021-12-14-120251_fbys.pdf |
| Strategaeth Drafnidiaeth | Llywodraeth Cymru: Llwybr Newydd; Strategaeth Drafnidiaeth Newydd i Gymru, 2021: https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021 |
| ***Cynllunio*** | |
| **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040** | Cynllun datblygu sy'n gosod y cyfeiriad datblygu ar gyfer Cymru gyfan, ac yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol megis gweithredu ar yr hinsawdd: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf |
| **Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3, 2020** | Yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf |
| **Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, 2021** | Canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol:: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf |
| **Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022** | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gosod gweledigaeth a chynllun manwl ar gyfer ble y dylai datblygiad ddigwydd yng Nghonwy: https://shorturl.at/cirS7<br><br>Sylfaen Tystiolaeth – Tai:: https://shorturl.at/lmnRX<br><br>Briff Datblygu Tŷ Mawr – CDLl37 Canllawiau Cynllunio Atodol Gorffennaf 2018 https://shorturl.at/lmrT3 |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy** | Bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn y pen draw: https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Replacement-LDP/Replacement-Local-Development-Plan.aspx<br><br>Papur Cefndir 47 y CDLl Newydd – Asesiad o Isadeiledd Gwyrdd (tudalennau 36 i 39):https://shorturl.at/hnISW |
| ***Treftadaeth*** | |
| **Colwyn Bay Through Time** | Graham Roberts (2009). ASIN B00DBA2LQM. |
| **Adeiladau Rhestredig** | Data Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth – CBSC: https://datamap.gov.wales/maps/active-travel-network-maps/ |
| **Treftadaeth Ar-lein** | Treftadaeth Bae Colwyn Ar-lein: https://colwynbayheritage.org.uk/ |
| ***Eraill*** | |
| **Deddf Teithio Llesol** | Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau i hwyluso teithio llesol fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus – Llywodraeth Cymru 2021: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/active-travel-act-guidance.pdf |
| **Siarter Creu Lleoedd** | Crynodeb o ystyriaethau allweddol ynglŷn â chreu lleoedd yng Nghymru: http://dcfw.org/placemaking/placemaking-charter/ |
| **Argyfwng Hinsawdd Llywodraeth Cymru** | https://gov.wales/welsh-government-makes-climate-emergency-declaration |
| **Argyfwng Natur Senedd Cymru** | https://research.senedd.wales/research-articles/cop15-time-to-tackle-the-nature-emergency/ |
| **Twristiaeth** | Llwybr Dychmygwch– ap rhyngweithiol a ddatblygwyd gan y gymuned: https://www.imaginetrail.com/ |
| **Garddwriaeth** | Bywyd yn Rhif. 27 Therapi Garddwriaethol: https://lifeatno27.com |
| **Busnes** | Ffederasiwn Busnesau Bach: www.fsb.org.uk |

# Rhestr o Randdeiliaid

Fe hoffai Pwyllgor Llywio’r Cynllun Lle ddiolch i’r rhanddeiliaid a’r cynrychiolwyr cymunedol a ganlyn am gymryd rhan yn natblygiad y cynllun hwn (sylwer nad yw’r rhestr hon yn llawn):

Cyngor Tref Bae Colwyn

Radio Bayside

Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bryn Woodlands House

Yr Eglwys yng Nghymru

Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn Cyf.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy– amryw o adrannau

Cynlas Cyf

Dementia Cyfeillgar Llandrillo yn Rhos

Cyfeillion Llandrillo yn Rhos

Hafod-y-Bryn

Home-Start Conwy

Bwyd Bendigedig Colwyn

Le Sport

Lichfields

Cyngor Cymuned Llysfaen

Menter Iaith Conwy

Cyngor Cymuned Mochdre

Heddlu Gogledd Cymru

Rhwydweithio ar gyfer Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Integreiddio Amlddiwylliannol (NWAMI)

Ymddiriedolaeth Datblygu Gogledd Cymru

Oriel Colwyn

Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn

Tawelwch Meddwl

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Clwb Rotari Llandrillo-yn-Rhos

Clwb Beicio Llandrillo-yn-Rhos

Richard Baddely A’i Gwmni

Ysgol Rydal Penrhos

Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph

Eglwys St Paul Bae Colwyn

TAPE Cerddoriaeth a Ffilm i’r Gymuned

Gyda’n Gilydd Tros Fae Colwyn

Canolfan Gymunedol Bae Colwyn Uchaf

*Diolch yn arbennig hefyd i Swyddog Ymgysylltu Strategol a Chynllun Lle Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (aelod o'r Tîm Polisi Cynllunio Strategol), a gymerodd ran yn y broses o'r cychwyn cyntaf ac a fynychodd gyfarfodydd y Grŵp Llywio yn rheolaidd.*